




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair:

Cynllun Blynyddoedd
Cynnar a Gofal Plant



Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Cynulleidfa

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at bawb sy'n arwain, sy'n comisiynu ac sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd o feichiogrwydd hyd at saith oed (diwedd y Cyfnod Sylfaen) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys bydwagedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, gweithwyr gofal plant, gweithwyr chwarae, athrawon, cynorthwyyr addysgu, gweithwyr cymdeithasol, meddygon, deintyddion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedaethau iechyd hyd at y llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn diffinio ystyr y blynyddoedd cynnar i Lywodraeth Cymru ac yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau a'r system sy'n eu cefnogi. Mae'n adeiladu ar strategaethau blaenorol megis y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth* (2005) a *Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd*, Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru (2011). Mae'n dwyn ynghyd y blaenoriaethau, y polisiau a'r rhaglenni sy'n effeithio neu'n dylanwadu ar blant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar ac yn nodi cynlluniau ar gyfer gwella o'r Adrannau canlynol o fewn Llywodraeth Cymru: Addysg a Sgiliau; Cymunedau a Threchu Tlodi; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; Tai ac Adfywio; Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; a Chyllid. Mae'r cynllun yn nodi rolau partneriaid yn y broses wella ac wedi'u tanseilio gan ein hymrwymiad at hawliau plant.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: blynyddoeddcynnar@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk/adnoddau neu www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Crynodeb	3
1. Pam mae'r blynyddoedd cynnar yn bwysig	6
2. Iechyd a lles plant	19
3. Cefnogi teuluoedd a rhieni	26
4. Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel	33
5. Addysg gynradd effeithiol	38
6. Codi safonau	44
7. Rhoi'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar waith	51
Atodiad A: Cyfeiriadau	59
Atodiad B: Rhaglenni a strategaethau	64
Atodiad C: Geirfa	67

Rhagair y Gweinidog

Ein huchelgais yw i bob plentyn yng Nghymru cael dyfodol disglair. Ein gweledigaeth yw creu Cymru ar gyfer y dyfodol sy'n gymdeithas decach, lle y gall pob unigolyn fanteisio i'r eithaf ar ei alluoedd a chyfrannu at y gymuned y mae'n byw ynddi. Nid ydym am i unrhyw un o'n plant fod o dan anfantais oherwydd tlodi ac anghydraddoldeb.

Rydym am i bob un o'n plant gael dechrau teg mewn bywyd; cael addysg dda; mwynhau'r iechyd gorau posibl; byw mewn cartref gweddus; gallu mwynhau amgylchedd cyfoethog gan gynnwys cyfleoedd i chwarae, ymgymryd â gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol; cael eu clywed, cael eu trin â pharch a theimlo'n ddiogel.

Rydym yn cydnabod mai teuluoedd a rhieni/gofalwyr sydd yn y sefyllfa orau i fagu eu plant, a bod pob teulu yn wahanol a bod eu hanghenion yn newid dros amser. Rydym yn ymrwymedig i helpu teuluoedd, ac yn arbennig rhieni/gofalwyr, i fod y gorau y gallant ar gyfer eu plant; ac os oes angen help arnynt, y caiff ein cymorth ei roi mewn ffordd sy'n parchu'r diwylliant a'r iaith a ddefnyddir yn y cartref, ei fod yn amserol, yn integredig a'i fod yn berthnasol i'w hanghenion.

Ein nod yw sicrhau bod rhieni/gofalwyr, a phawb sy'n helpu i ofalu am blant ifanc, yn hyddysg a'u bod yn meddu ar y lefel briodol o sgiliau i helpu pob un o'n plant i aros yn iach, i ddatblygu'n dda ac i gyflawni eu potensial. Mae cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar yn bwysig o ran datblygiad iaith plentyn yn Gymraeg ac yn Saesneg, waeth beth fo mamiaith y cartref. Rydym am i'n plant gyrraedd yr ysgol yn barod i ddysgu ac yn meddu ar y gallu i wneud hynny, ac i bawb sy'n rhan o fywyd a datblygiad plentyn feddu ar ddyheadau uchel ar eu cyfer.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall fod llawer o bobl y tu allan i'r teulu sy'n gweithio gyda, gofalu am neu'n cefnogi plentyn a'i deulu – gan gynnwys bydwagedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, therapyddion, gweithwyr gofal plant, athrawon, cynorthwywyr addysgu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd meddwl, meddygon a deintyddion. Mae'n hanfodol bod y Tîm o Amgylch y Teulu yn weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda a gaiff gefnogaeth briodol.

Hwn yw'r Cynllun cyntaf ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Yn y cynllun, nodwn y cyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Rydym yn dwyn ynghyd rhaglenni a pholisïau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chydlynol i gefnogi plant a'u teuluoedd ar draws y blynyddoedd cynnar. Rydym yn disgrifio'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd dros y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud tuag at gymdeithas decach. Rydym yn bwriadu asesu cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn flynyddol a chwblhau adolygiad llawn ymhen tair blynedd.

Er mwyn gweithredu'r cynllun hwn, bydd angen i bob un ohonom gydweithio'n agosach, gyda brwdfrydedd, ymroddiad a diben cyffredin er mwyn helpu ein plant i ffynnu.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi er mwyn gwireddu hyn.



Huw Lewis AC
Gweinidog Addysg a Sgiliau



Jeff Cuthbert AC
Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Crynodeb

Erbyn i blant gyrraedd saith oed rydym eisiau iddynt gael y sylfeini cywir ar gyfer iechyd da, eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn dysgu a'u bod yn meddu ar y sgiliau sydd angen arnynt i gyrraedd eu llawn botensial. Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*¹ yn nodi ein hymrwymiad i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn yng Nghymru.

Mae yna saith adran. Mae Adran 1 yn gosod y sylfaen ar gyfer gwella ac yn esbonio pam fod buddsoddi mewn gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd cynnar mor bwysig.

Mae Adran 2 yn canolbwyntio ar **iechyd a lles plant**. Mae babi a gaiff ei eni yn dilyn beichiogrwydd maethlon, lle na chafodd ei amlygu i ysmegu ac alcohol, ar bwysau geni normal, wedi'i fwydo'n llawn ar y fron ac wedi'i imiwneiddio'n llawn, mewn amgylchedd diogel, sy'n cael cynhesrwydd emosiynol gan ei rieni², yn fwy tebygol o ddod yn oedolyn iach. Mae iechyd plentyn, o ran lles corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, yn cael ei dylanwadu'n gryf drwy gydol beichiogrwydd a phlentyndod gan iechyd, ffordd o fyw ac ymddygiad rhieni, yn ogystal ag ansawdd perthnasoedd y plentyn, yn enwedig gyda'u mam. Byddwn yn canolbwyntio ar atal, gwella ansawdd gofal y gwasanaethau iechyd ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar ac integreiddio gwasanaethau i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn yn hyrwyddo datblygiad plant ac iechyd teulu trwy ddarparu rhaglenni cyffredinol sydd wedi'u targedu megis y rhaglenni bwydo ar y fron ac imiwneiddio, a byddwn yn datblygu rhaglen iechyd plant Cymru gyfan.

Gosodir pwysigrwydd **teuluoedd cadarn a chadarnhaol** yn Adran 3. Mae plant yn gwneud yn well pan fyddant yn byw mewn tŷ diogel o ansawdd da a phan fydd ganddynt gydberthynas agos, gadarnhaol a sicr gyda'u mam, tad neu gydag oedolyn allweddol arall. Rydym yn gwybod bod yr hyn mae rhieni yn ei wneud gyda'u plant yn y cartref yn cael effaith sylweddol a gall gael dylanwad cryfach nag eu galwedigaeth, addysg neu incwm. Mae darllen, canu a chwarae gyda'u plant yn weithgareddau hanfodol wrth gefnogi datblygiad sgiliau siarad, gwrando a darllen a deall iaith sydd yn rhagfynegiadau allweddol o ran datblygiad yn y dyfodol a pharodrwydd y plentyn ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn bwysig o ran helpu i adeiladu perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a'u plant. Byddwn yn sicrhau bod teuluoedd, rhieni a phlant yn cael yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant ei angen. Byddwn yn gadarn yn ein cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu cynnar a chaffael iaith yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith, trwy raglenni megis Dechrau Da a Twf, yn ogystal ag ar gyfer y rhai y mae Cymraeg neu Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt, a byddwn yn peilota dulliau i ddysgu teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Byddwn yn sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.

¹ Mae'r elfen gofal plant y cynllun hwn yn cyrraedd y tu hwnt i saith oed oherwydd bydd llawer o'r materion a'r polisïau sy'n cael eu datblygu yn addas ar gyfer y rheini sy'n gweithio gyda phlant wyth oed a hŷn.

² 'Mae 'rhiant' yn derm cyffredinol a ddefnyddir drwy gydol y ddogfen hon. Gall olygu unrhyw oedolyn arwyddocaol sy'n chwarae rôl rhagweithiol yn rhianta plentyn neu blant ac yn cynnwys mamau, tadau, gofalwyr, rhieni maeth a mabwysiadu, gwarcheidwaid a rhieni corfforaethol.

Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel yw thema Adran 4. Caiff y cyfle i fynd i leoliad gofal plant neu ddarparwydd blynyddoedd cynnar gofal plant neu addysg y blynyddoedd cynnar ddylanwad allweddol ar ddatblygiad plentyn, yn enwedig y plant hynny o gefndir difreintiedig. Mae gofal plant fforddiadwy, hyblyg a hygyrch hefyd yn galluogi rhieni i weithio neu gael hyfforddiant, ac yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Byddwn yn gweithio gyda'r arolygiaethau, y sector ac awdurdodau lleol i ysgogi gwelliannau yn ansawdd gofal plant a chymorth a datblygu'r farchnad gofal plant. Byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth hyblyg o ofal plant Dechrau'n Deg, cymorth rhianta a chymorth iaith gynnar, peilota ymagwedd mwy hyblyg tuag at y Cyfnod Sylfaen, ystyried ffyrdd i wella argaeledd gofal plant cofleidiol a darpariaeth chwarae, a chyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant Gwirfoddol ar gyfer gofal plant dros wyth oed.

Mae cael **addysg gynradd dda** yn cael sylw yn Adran 5. Rydym yn glir bod dysgu yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi dysgu yn yr ysgol gynradd. Mae'r cydberthnasau rhwng ysgolion, darparwyr, gwasanaethau cymorth a rhieni yn hanfodol wrth alluogi plant i berfformio'n dda. Mae'r ysgolion a'r darparwyr addysg gynnar gorau yn ystyried plant mewn ffordd gyfannol, yn cefnogi datblygiad eu hiechyd corfforol, meddwl ac emosiynol, ac yn eu helpu i symud yn ddidrafferth o un cam dysgu i un arall. Byddwn yn ategu'r broses o ddatblygu dull ysgol gyfan tuag at y Cyfnod Sylfaen, rhoi ar waith y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh), y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, yn ogystal â pharhau â'n hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau drwy ddefnydd arloesol o'r cynllun Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae Adran 6 yn gosod allan sut rydym yn disgwyl **codi safonau**. Rhaid i'n systemau a'n prosesau roi pwyslais cryf ar wella canlyniadau a chodi safonau yn barhaus, tra'n lleihau'r bwlch rhwng y plant mwyaf difreintiedig a'r plant lleiaf difreintiedig. I atgyfnerthu ein blaenoriaethau allweddol mae angen inni sicrhau bod y trefniadau darparu a chymorth ar gyfer ein plant a'n teuluoedd yn iawn o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys ffocws clir ar brofiad plant unigol, dull gweithredu cydlynus aml-asiantaeth, ymatebion partneriaeth effeithiol i anghenion a nodwyd, trefniadau rheoleiddio ac arolygu priodol a gweithgareddau hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel ar gyfer y gweithlu. Byddwn yn gweithio tuag at system fwy cydlynol o asesu, olrhain a monitro cynnydd datblygiadol plentyn ar draws y blynyddoedd cynnar. Byddwn yn ystyried a oes angen newid y trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu lleoliadau addysg a gofal plant cynnar a'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* (2012) ac yn datblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd.

Yn olaf, mae Adran 7 yn egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi trosolwg o'r polisiâu a'r rhaglenni sydd mewn lle a'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy i helpu sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Nid yw'n rhestru pob strategaeth, cynllun neu raglen sydd eisoes ar waith, ond mae'n tynnu sylw


at y meysydd penodol lle byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau dyfodol disglair ar gyfer ein plant. Rydym yn cydnabod y bydd taith pob plentyn yn wahanol, yn rhannol oherwydd yr amgylchiadau y maent yn cael eu geni a'u hiechyd ar enedigaeth, ac efallai y byddant angen cymorth mwy penodol. Felly, yr ydym wedi cyhoeddi ar wahân *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2012), *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2013) a *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* (2012) sy'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd, yn ychwanegol at y rhai a gynhwysir yn y cynllun hwn, er mwyn helpu i godi rhai o'n plant allan o dlodi ac i leihau anghydraddoldebau.

Mae pob gwasanaeth, boed wedi'u targedu neu'n gyffredinol, angen fod yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ac effaith tlodi ar blant yn y blynyddoedd cynnar drwy weithredu ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn ogystal â darparu cymorth i deuluoedd mewn argyfwng. Ar lefel leol yr her allweddol bydd dod â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i gefnogi'r dull aml-asiantaeth Tîm o Amgylch y Teulu fel rhaglen ataliol pwysig. Bydd y ffordd y mae partneriaid lleol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cyflawni eu rolau wrth yrru'r agenda hon yn hollbwysig. Drwy weithio gyda'n gilydd, rhannu arfer da a dysgu o'r hyn sy'n gweithio, byddwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer holl blant Cymru i gael dyfodol mwy disglair.

1. Pam mae'r blynyddoedd cynnar yn bwysig

Mae'r blynyddoedd cynnar, a gaiff eu diffinio yng Nghymru fel y cyfnod bywyd o'r cyfnod cyn-genï hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu 0 i 7 oed, yn rhan hanfodol o blentyndod; mae'n adeg lle y dylai plant allu mwynhau; pan fyddant yn tyfu, yn datblygu, yn chwarae ac yn dysgu mewn amgylchedd diogel a chynhaliol. Cytunir yn gyffredinol bod profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn holl bwysig o ran datblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. O ganlyniad, y blynyddoedd cynnar yw'r sylfaen y mae cymdeithas yn dibynnu arni ar gyfer ei ffyniant a'i datblygiad yn y dyfodol.

Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar gynnydd plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar . . .



Ffigur 1: Model o'r ffordd y caiff llwyddiant addysgol ei drosglwyddo rhwng cenedlaethau
Ffynhonnell: Feinstein, L., Duckworth, K. a Sabates, R. (2004)

Mae profiadau ac amgylchiadau cyn genï a thrwy gydol plentyndod yn dylanwadu ar gyfleoedd plentyn mewn bywyd ac, fel y dengys Ffigur 1, mae'n ddarlun cymhleth. Er enghraifft, cyn genï, bydd iechyd a lles y fam a'r hyn sy'n digwydd yn y groth yn effeithio ar iechyd plentyn. Caiff iechyd y fam yn ystod beichiogrwydd, gan gynnwys straen, deiet, y defnydd o gyffuriau, alcohol a thybaco, ddylanwadu sylweddol ar ddatblygiad y ffetws a datblygiad cynnar yr ymennydd. Mae'r cysylltiad sy'n datblygu rhwng baban a'r ddau riant yn dylanwadu ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol plentyn, ymddygiad, hunanwerth, sgiliau cymdeithasol, gwydnwch a chyrhaeddiad addysgol.


Mae gan ffactorau cefndir eraill gan gynnwys tai a chyflogaeth hefyd ddylanwadu pwysig ar ganlyniadau plentyn. Gall byw mewn cartref diogel o ansawdd da, er enghraifft, olygu bod mwy o gyfleoedd i chwarae, y tu mewn ac yn yr awyr agored a gall cartref cynnes a chysurus annog gwell cyfleoedd i astudio, bwyta'n iach ac arwain at well iechyd meddwl. Mae bod mewn gwaith, gydag incwm sefydlog, yn debygol o ddarparu mwy o sicrwydd i deuluoedd a chynnal ansawdd bywyd da yn y tymor hwy.

Fodd bynnag, nid oes un ffactor penodol yn allweddol o ran gwella canlyniadau plentyn a'i gyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd; profiadau dros amser sy'n bwysig. Er hynny, gwyddom fod tair elfen bwysig:

- amgylchedd dysgu da yn y cartref yn ystod y blynyddoedd cynnar
- lleoliadau cyn ysgol o ansawdd da
- ysgol gynradd effeithiol.

Mae plentyn sy'n cael pob un o'r tri phrofiad hyn yn fwy tebygol o ddangos canlyniadau gwybyddol a chymdeithasol gwell na phlant sydd ond yn cael rhai o'r profiadau hyn.

Mae rhieni sy'n dangos diddordeb yn bwysig iawn . . .




Ffigur 2: Graddau'r effaith ar gyfer statws cymdeithasol-economaidd, addysg rhieni, incwm a'r amgylchedd dysgu yn y cartref yn ystod y blynyddoedd cynnar ar ganlyniadau plant 5 oed

Ffynhonnell: Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B. (2004)


Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref a chyfranogiad rhieni o ran datblygiad plentyn. Dengys Ffigur 2 y gall hynny gael mwy o effaith na galwedigaeth, addysg neu incwm rhieni. Mae mamau a thadau sy'n siarad â'u plant, yn gwerthfawrogi dysgu ac yn annog eu plentyn i ddarllen yn helaeth yn dylanwadu ar sgiliau iaith a llythrennedd eu plentyn, ac yn helpu i'w paratoi ar gyfer yr ysgol. Dengys tystiolaeth hefyd y caiff diddordeb cadarn a chadarnhaol gan rieni yn addysg eu plentyn effaith sylweddol fwy ar gyrhaeddiad erbyn 16 oed na chefnidir cymdeithasol-economaidd.

Fodd bynnag, mae incwm a chymwysterau'r rhiant yn gwneud gwahaniaeth . . .



Ffigur 3: Trefn gyfartalog sgoriau prawf yn 22, 42, 60 a 120 mis, yn ôl statws cymdeithasol-economaidd rhieni.
Ffynhonnell: Feinstein, L. (2003)

Caiff amgylchedd dysgu da yn y cartref effaith gadarnhaol gryf, ond caiff dylanwadau eraill hefyd effaith sylweddol. Fel y dengys Ffigur 3, hyd yn oed yn 22 mis oed, ceir bwlch sylweddol o ran datblygiad plant o wahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd y gofynnwyd iddynt gwblhau amrywiaeth o brofion gan gynnwys pentyrru ciwbiau, defnyddio pensil a dangosyddion defnydd iaith a datblygiad personol megis pwyntio at eu llygaid a gwisgo eu hesgidiau. Mae'r bwlch yn ehangu wrth i'r plant dyfu'n hŷn. Ar gyfartaledd, mae plant mamau â chymwysterau Safon Uwch neu radd yn dueddol o gyflawni sgoriau cyrhaeddiad uwch o gymharu â phlant nad oedd gan eu mamau gymwysterau ac mae'r effeithiau hyn yn barhaus.



Ffigur 4: Oedrannau datblygiadol cymedrig yn bum mlwydd dau fis oed ar brawf Geirfa Enwi Graddfeydd Gallu Prydain wrth gwintell incwm³
Ffynhonnell: Washbrook, E. a Waldfogel, J. (2012)

Caiff y rhan fwyaf o'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plentyn o deulu breintiedig neu ddifreintiedig ei bennu yn gynnar yn ystod plentyndod a chaiff ei greu i raddau helaeth o ganlyniad i gefndir y teulu ac amgylchedd y cartref, fel y dengys Ffigur 4. Canfu *Astudiaeth Carfan y Mileniwm* (2000) erbyn pump oed bod plant o deuluoedd mwy breintiedig dros flwyddyn ar y blaen o ran eu geirfa, o gymharu â'r rheini o gefndiroedd difreintiedig. Ategir y canfyddiadau hyn gan astudiaeth gynharach a ganfu erbyn tair oed bod plant o deuluoedd gwell eu byd wedi clywed tua 30 miliwn yn fwy o eiriau na'r rhan fwyaf o blant difreintiedig. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod perfformiad gwybyddol gwael, mor gynnar â thair a phump oed, wedi'i gysylltu â thebygolrwydd uwch o fod yn ddi-waith, lefelau cymwysterau isel ac incwm isel fel oedolyn.

Y tu hwnt i amgylchedd y cartref, gwyddom fod addysg a gofal plant o ansawdd uchel yn ystod plentyndod cynnar yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyfleoedd plentyn mewn bywyd. Dangoswyd mai dyma un o'r strategaethau ymyrryd cynnar mwyaf effeithiol i wella canlyniadau datblygiadol plant, yn arbennig datblygiad iaith a datblygiad gwybyddol. Dengys gwaith ymchwil y buddiannau hirdymor posibl sy'n deillio o fuddsoddi mewn addysg a gofal plant cynnar i bob plentyn, ond yn enwedig i rai difreintiedig. Mae'n amlygu pwysigrwydd gweithlu medrus ac yn dod i'r casgliad y gall addysg o ansawdd dda yn ystod y blynyddoedd cynnar hybu sgiliau gwybyddol a chymdeithasol plentyn a'r ffaith bod hyn yn rhoi sylfaen well iddynt o ran llwyddiant parhaus yn yr ysgol a thu hwnt. Gwyddom hefyd fod canlyniadau da ar lefel TGAU yn dylanwadu ar ganlyniadau fel oedolyn ifanc, gan gynnwys cymryd rhan mewn addysg bellach a cheir cydberthynas gadarn rhwng cymwysterau uwch a lefelau incwm. Felly mae'n hanfodol cael pethau'n iawn o'r cychwyn oherwydd y cyswllt rhwng datblygiad yn ystod y blynyddoedd cynnar a llwyddiant yn ddiweddarach mewn bywyd a daw'n hollbwysig er mwyn ceisio chwalu'r cylch tlodi sy'n bla ar lawer o deuluoedd.


³ Caiff cwintellau yn y graff hwn eu trefnu o ran incwm blynyddol cymedrig cyn-treth, gan amrywio o £10,300 ar gyfer cwintell 1 i £20,200, £30,200, £42,900 a £79,500 ar gyfer cwintellau dilynol.

Mae ymyrryd a buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn dwyn ffrwyth . . .

Mae dechrau da mewn bywyd a theulu cariadus a chynhaliol, a mynediad i wasanaethau cyffredinol o ansawdd dda o fudd i bob plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r blynyddoedd cynnar mor gadarnhaol i rai plant. Gall tlodi, anghydraddoldeb ac anfantais gymdeithasol arwain at 'allgáu cymdeithasol' sy'n effeithio ar gyfranogiad oedolion mewn bywyd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Mae'n bwysig chwalu'r cylch amddifadedd oherwydd, er y gallwn wneud ein gorau glas i sicrhau bod bywyd yn fwy hydrin i bobl sy'n byw mewn tlodi, mae'n fwy effeithiol sicrhau bod ein pobl ifanc yn osgoi'r fagl tlodi i ddechrau.

Ceir corff cynyddol o dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad yr Athro Syr Michael Marmot o anghydraddoldebau iechyd, sy'n dangos effeithiolrwydd, gwerth ac adenillion uchel wrth fuddsoddi mewn rhaglenni ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a gwella datblygiad plant a'u rhagolygon fel oedolion.

Gan ddefnyddio tystiolaeth, o'r wlad hon ac o dramor, ategir y farn bod rhaglenni yn ystod y blynyddoedd cynnar yn cael effaith barhaus a chadarnhaol. Gall camau cynnar arwain at fuddiannau cost effeithiol, nid yn unig drwy wella canlyniadau iechyd a chyrhaeddiad addysgol, ond hefyd drwy leihau'r costau dilynol sy'n gysylltiedig â darparu cymorth iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol a chymorth lles. Canfu *Astudiaeth Datblygiad Plant Genedlaethol y Deyrnas Unedig*, a ddilynodd grŵp o bobl ers eu geni yn 1958, fod buddsoddiadau a wnaed cyn pump oed, yn ôl pob tebyg, yn cael effaith barhaus a chadarnhaol, gydag oedolion sy'n mynd i leoliadau cyn ysgol yn fwy tebygol o ennill cymwysterau a dod o hyd i swydd.



Ffigur 5: Adenillion ar fuddsoddiad dros amser
Ffynhonnell: Heckman, J. J. (2008)

Dengys Ffigur 5 sut y gallai rhaglenni ymyriadau sy'n helpu plant difreintiedig yn gynnar yn eu bywyd fod yn fwy cost effeithiol na'r rheini wedi'u targedu at bobl ifanc yn eu harddegau

neu oedolion sy'n tanberfformio, yn rhannol oherwydd bod gan raglenni cynnar fwy o amser i ddangos eu buddiannau cadarnhaol, ond hefyd oherwydd y gall cymorth cynnar atal yr angen am raglenni dal i fyny unwaith y bydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Ymddengys fod y cyswllt rhwng addysg a gofal plant o ansawdd uchel yn ystod plentyndod cynnar a chanlyniadau cadarnhaol i blant yn arbennig o gryf ar gyfer plant o deuluoedd difreintiedig, gyda'r effeithiau ar gyfer y plant hyn yn fwy ac yn para'n hirach. Mae'n bwysig cydnabod bod angen i'r buddsoddiad hwn barhau o un cam dysgu a datblygu i'r cam nesaf er mwyn adeiladu ar y buddiannau cynnar.

I grynhoi: gall rhaglenni ac ymyriadau yn ystod y blynyddoedd cynnar wella datblygiad plant a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol gan gyflwyno buddiannau byrdymor a hirdymor ac adenillion economaidd uwch. I blant a theuluoedd difreintiedig mae'r buddiannau hyn fwyaf amlwg.

Ac mae rhai ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant . . .


Mae tystiolaeth yn awgrymu nifer o ffactorau critigol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant ac a all helpu i drechu anfantais. Yn gyffredinol, bernir bod dulliau gweithredu wedi'u targedu yn hytrach na dulliau gweithredu cyffredinol yn fwy cost effeithiol, ond mae'r sail tystiolaeth gymharol ar gyfer pennu pa ddull allai fod fwyaf cost effeithiol yn gyfyngedig. Yn ymarferol, mae angen amrywiaeth o ymyriadau a all ddarparu cymorth ar wahanol lefelau angen wedi'u canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- caiff iechyd ac ymddygiad rhieni, yn enwedig mamau, ei ddylanwadu'n gryf gan **iechyd a lles plant**. Mae babi a gaiff ei eni yn dilyn beichiogrwydd maethlon, lle na chafodd ei amlygu i ysmegu, alcohol a chyffuriau, ar bwysau geni normal, wedi'i fwydo'n llawn ar y fron ac wedi'i imiwneiddio'n llawn, mewn amgylchedd diogel a chynnes, yn cael cynhesrwydd emosiynol gan ei rieni, yn fwy tebygol o gyflawni ei botensial llawn drwy gydol ei fywyd fel plentyn ac oedolyn
- **teuluoedd cryf a chadarnhaol** – mae plentyn yn gwneud yn well pan fydd ganddo gydberthynas agos a chadarnhaol gyda'i fam, ei dad neu oedolyn allweddol arall. Mae cyswllt sylweddol rhwng ansawdd y gofal a roddir i faban, a'r ymlyniad sy'n datblygu rhwng babanod a'u rhieni, a dysgu plant, eu canlyniadau addysgol, eu sgiliau cymdeithasol, eu hunaneffeithiolrwydd, eu hymddygiad a'u hiechyd
- gall **amgylchedd dysgu yn y cartref** sy'n hwyluso ac yn ategu dysgu drechu effeithiau anfantais yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae'r pethau y mae rhieni yn helpu plentyn i'w gwneud gartref, fel darllen, canu a chwarae, yn hanfodol wrth ategu sgiliau llafaredd a deall iaith plentyn ac yn rhagfynegiadau allweddol o ran datblygiad yn y dyfodol ac yn helpu i sicrhau bod y plentyn yn barod ar gyfer yr ysgol
- caiff **mynychu lleoliad addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel** ddylanwad allweddol ar ddatblygiad plentyn, yn enwedig i blentyn sy'n dod o gefndir difreintiedig
- mae'r cydberthnasau rhwng **ysgolion**, darparwyr, gwasanaethau cymorth a rhieni yn hanfodol wrth alluogi pob plentyn i berfformio'n dda. Mae'r ysgolion a'r darparwyr addysg gynnar gorau yn ystyried plant mewn ffordd gyfannol, yn cefnogi eu datblygiad emosiynol ac yn eu helpu i symud yn ddidrafferth o un cam dysgu i un arall.

Yng Nghymru, gwnaed cychwyn cadarn eisoes yn hyn o beth . . .

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi'n sylweddol yn y blynyddoedd cynnar. Yn 2012–13, gwnaethom fuddsoddi mwy na £150 miliwn mewn addysg a gofal plant cynnar, mwy na £3.6 miliwn yn ein rhaglenni llythrennedd a rhifedd y blynyddoedd cynnar a thros £2.6 miliwn yn ein rhaglenni ysgolion a lleoliadau cyn ysgol iach. Erbyn 2015, byddwn wedi buddsoddi £55 miliwn ychwanegol o gyllid referniw ac £19 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf fel rhan o'n Rhaglen Dechrau'n Deg ac wedi rhyddhau mwy na £135 miliwn i brosiectau cymorth i deuluoedd drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Ac rydym yn ymrwymedig i gynnal y lefel hon o gymorth yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn.


Mae polisiâu presennol yng Nghymru yn seiliedig ar gorff eang o dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol ac, fel y dengys Ffigur 6, mae gennym lwyfan blynyddoedd cynnar cadarn i adeiladu arno. Er enghraifft, mae rhaglen Dechrau'n Deg eisoes wedi'i chynllunio i gyrraedd mwy na 18,000 o blant o dan bedair oed, a bydd y nifer hon yn cynyddu i 36,000 erbyn 2015 ac mae mwy na 95 y cant o fabanod o dan flwydd oed wedi'u himiwneddio. Mae Cynllun Gwên, sef rhaglen a gynlluniwyd i wella iechyd deintyddol plant, eisoes wedi cyrraedd mwy na 78,000 o blant. (Ceir rhestr fwy cyflawn o strategaethau a rhaglenni ar draws y blynyddoedd cynnar yn Atodiad B.)



Ffigur 6: Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru – 2013
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2013)

Fodd bynnag, rhaid i ni fynd i'r afael â thlodi plant ac anghydraddoldebau er mwyn gwneud cynnydd pellach . . .

Mae bron i un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi yng Nghymru; gyda thua 20 y cant ohonynt yn byw mewn tlodi absoliwt. Fel y dengys Ffigur 7, mae hyn yn uwch na gwledydd eraill y DU. Er bod y ffaith bod unigolyn mewn cyflogaeth yn lleihau'r risg, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu fod mwy na hanner yr holl blant sy'n byw mewn tlodi bellach mewn cartrefi lle mae o leiaf un person yn gweithio.




Ffigur 7: Canran y plant sy'n byw mewn amddifadedd sylweddol ac incwm isel cyfun
Ffynhonnell: Arolwg Adnoddau Teuluoedd 2009/10

Fel y gwelsom yn Ffigur 1, mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar fywyd plentyn. Dengys tystiolaeth o *Astudiaeth Carfan y Mileniwm* bod rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng yr 20 y cant o deuluoedd mwyaf cyfoethog a'r 20 y cant o deuluoedd mwyaf tlawd yng Nghymru sy'n cynnwys statws cyflogaeth; ansawdd tai; ffactorau iechyd gan gynnwys iechyd meddwl a gordewdra; a bywyd teuluol gan gynnwys darllen ac arferion rheolaidd. Dengys Ffigur 8 ehangder y materion hyn a'r dylanwad y gall gwahaniaethau o ran incwm ei gael ar brofiadau plentynod. Mae trechu tlodi plant a chefnogi rhianta cadarnhaol yn bwysig o ran sicrhau bod plant yn cyflawni eu potensial.

	Yr 20% o gartrefi mwyaf cyfoethog	Yr 20% o gartrefi mwyaf tlawd
Risg y caiff y fam iselder ôl-enedigol	7%	20%
Rhywun yn darllen iddynt bob dydd yn dair oed	78%	45%
Amser gwely rheolaidd yn dair oed	91%	70%
Lleithder yn broblem yn y cartref yn dair oed	2%	13%
Y fam yn gweithio'n llawn amser yn bump oed	31%	6%


Ffigur 8: Gwahaniaethau o ran dangosyddion allweddol rhwng y teuluoedd mwyaf cyfoethog a'r teuluoedd mwyaf tlawd yng Nghymru
Ffynhonnell: Astudiaeth Carfan y Mileniwm

Ffordd arall o fesur sut y caiff tlodi effaith ar fywydau plant yw ystyried eu pwysau geni. Mae babanod a gaiff eu geni'n pwysu llai na 2,500g yn fwy tebygol o ddatblygu'n arafach ac o gael problemau iechyd megis diabetes a chlefyd y galon. Mae gan Gymru darged tlodi plant i leihau nifer yr achosion o bwysau geni isel ymhlith babanod a gaiff eu geni yn y pumed rhan fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth i lefel islaw 7.3 y cant erbyn 2020; rhwng 2005 a 2007, roedd yn 8.9 y cant yn y pumed rhan fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth o gymharu â 7.2 y cant o'r rheini yn y pumed rhan ganol o ran y mwyaf difreintiedig. Dengys Ffigur 9 fod nifer y genedigaethau byw o fewn pob categori pwysau wedi parhau'n gymharol gyson dros amser.




Ffigur 9: Nifer y genedigaethau byw fesul pwysau'r baban, Cymru, 1993–2011
Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Bwletin Ystadegol SB 18/2013 (Chwefror 2013)

Unwaith eto, y duedd yw nad yw plant tlotach yn gallu darllen cystal â phlant breintiedig ac yn gyffredinol, fel y dengys Ffigur 10, nid yw plant saith oed yng Nghymru yn darllen cystal â'r rheini yn Lloegr a'r Alban ni waeth beth yw'r lefelau amddifadedd. Dengys gwaith ymchwil nad yw chwech y cant o famau ac wyth y cant o dadau yng Nghymru byth yn darllen i'w plant oherwydd pryderon am eu gallu eu hunain i ddarllen a dim ond 45 y cant o blant tair oed o'r teuluoedd tlotaf y darllenir iddynt bob dydd.



Ffigur 10: Gallu Darllen Geiriau (saith oed) fesul gwlad
Ffynhonnell: Taylor, C., WISERD (2013)

Ceir anghydraddoldebau hefyd o ran cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4. Yng Nghymru, cyfran y plant mewn ysgolion a gynhelir y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 20.6 y cant. Yn 2012, roedd perfformiad y plant hyn yn is na phlant eraill ym mhob cyfnod allweddol. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, y bwlbh o ran cyflawniad dangosydd y Cyfnod Sylfaen rhwng plant a oedd yn cael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt yn eu cael oedd 18.3 pwynt canran. Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd cyfran y plant a oedd yn cael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd lefel y dangosydd pwnc craidd yn 2012, 20 pwynt canran yn is na'r plant nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Yng Nghyfnod Allweddol 4, y bwlbh rhwng y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 oedd 33 pwynt canran. Fel y dengys Ffigur 11, nid yw cynnydd dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â'u cyd-ddysgwyr, er bod y bwlbh wedi lleihau ychydig mewn ysgolion cynradd.



Ffigur 11: Perfformiad ysgolion cynradd yng Nghymru ers 2005. Y gwahaniaeth rhwng perfformiad dangosydd pwnc craidd ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2⁴
Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Bwletin Ystadegol SB 32/2013 (Mawrth 2013)

Mae 'bylchau' mewn perfformiad hefyd rhwng grwpiau o ddysgwyr, fel plant sy'n derbyn gofal, o gymharu â'r holl ddysgwyr. Mae'r bwlch cyrhaeddiad yn ehangu o 26 pwynt canran ar gyfer y grŵp hwn yn y Cyfnod Sylfaen i 32 pwynt canran yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r canlyniadau hefyd yn amrywio yn ôl ethnigrwydd a rhyw. Mae achosion o dangyflawni a gwahardd o'r ysgol yn llawer amlycach mewn rhai grwpiau ethnig penodol; yn 2010–12, er enghraifft, cyflawnodd 71 y cant o blant Du neu Ddu Prydeinig a bron i 34 y cant o blant Teithwyr y lefelau disgwylidig yng Nghyfnod Allweddol 2, o gymharu â bron i 81 y cant o ddysgwyr Prydeinig Gwyn. Mae cael pethau'n iawn yn ystod y blynyddoedd cynnar ni waeth beth fo cefndir plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau hyn.

Ac mae angen y sgiliau priodol ar ein gweithlu . . .

Mae gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar yn fawr ac yn amrywiol ac yn cynnwys llawer o weithwyr proffesiynol fel bydwagedd, ymwelwyr ieuchyd, nyrsys ysgol, athrawon, gweithwyr cymdeithasol, deintyddion a phaediatregwyr y mae'n rhaid iddynt ennill cymwysterau lefel uchel penodol cyn y gallant ymarfer. Mae aelodau eraill o weithlu'r Blynyddoedd Cynnar y mae'n rhaid iddynt gyrraedd cymwysterau lefel gofynnol, gan gynnwys rhai cynorthwywyr addysgu, gweithwyr cymorth Twf, gweithwyr gofal plant a chwarae, a gweithwyr cymunedol, cyn y gallant weithio heb oruchwyliaeth a helpu plant a theuluoedd.

Yn 2012, roedd ychydig dros 4,380 o leoliadau gofal plant wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae tua 17,500 o bobl yn gweithio gyda'n plant ieuengaf ym maes gofal plant. Mae'r astudiaeth *Addysg Cyn Ysgol*

⁴ Cynradd – canran dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn y pynciau craidd, sef Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a'r dadansoddiad yn ôl dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyd-ddysgwyr nad ydynt yn gymwys.

ac Addysg Gynradd Effeithiol (EPPE) yn cyfeirio at bwysigrwydd ansawdd y rhngweithio rhwng oedolion a phlant, gwybodaeth staff a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm a sut mae plant ifanc yn dysgu a sut maent yn ategu dysgu'r plant gartref fel nodweddion lleoliad cyn ysgol da. Mewn lleoliadau sy'n ystyried bod datblygiad addysgol a datblygiad cymdeithasol yn ategu ei gilydd a'r un mor bwysig â'i gilydd, mae plant yn tueddu i wneud gwell cynnydd yn enwedig pan fo gan y staff gymwysterau uwch, gan gynnwys rhai athrawon hyfforddedig. Yn ogystal â hyn, mae lleoliad o ansawdd uchel o fudd penodol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu blant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Gellir lleihau nifer y plant y mae perygl y bydd ganddynt AAA i un o bob pump, o un o bob tri, drwy addysg cyn ysgol dda.

Darparwr	Dim cymhwyster	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 5	Gradd
Darparwr gofal dydd llawn	15%	10%	64%	6%	4%
Gofal dydd sesiynol	18%	15%	62%	4%	1%
Gwarchodwr plant	72%	3%	23%	2%	0%
Gofal plant y tu allan i'r ysgol	17%	25%	54%	3%	1%


Ffigur 12: Lefelau cymwysterau a ddeler yn ôl categori darparwr gofal plant (pob aelod o staff)
Ffynhonnell: Adroddiad Melyn 2012 ar gyfer Cyngor Gofal Cymru

Dengys Ffigur 12 uchod yr amrywiad eang o ran lefelau cymwysterau'r sector gofal plant yng Nghymru. Un o'r heriau sylweddol a wynebwr gennym yw codi statws gofalu am blant ifanc a'u haddysgu a'r gwerth a roddir ar y gwaith hwnnw i lefel galwedigaethau eraill yn y blynyddoedd gynnar. Gwnaed rhywfaint o gynnydd cadarnhaol eisoes i gynyddu'r gweithlu a gwella lefel sgiliau'r gweithlu, ond mae rhai rhwystrau sylweddol i'w goresgyn o hyd gan gynnwys cost, argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant.

Ond mae angen i ni wneud mwy . . .

Mae'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant hwn yn cydnabod bod llawer wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r sector gwirfoddol a'r sector preifat, rydym wedi cymryd camau sylweddol yng Nghymru tuag at adeiladu sector addysg gynnar, gofal plant a chwarae y gallwn fod yn falch ohono. Gwnaed hyn gennym drwy ddatblygu addysg gynnar am ddim ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed drwy'r Cyfnod Sylfaen, a buddsoddi yn y ddarpariaeth honno; sefydlu ac ehangu gofal plant am ddim i rai o'r plant dwy flwydd oed mwyaf difreintiedig drwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg; a rhoi sail ddeddfwriaethol i chwarae.

At hynny, drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, rydym wedi gwella'r ffordd y mae gwasanaethau yn cydweithio i helpu teuluoedd a, thrwy ddeddfwriaeth, rydym wedi arwain y ffordd wrth sicrhau y caiff hawliau plant eu parchu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i ddatblygu gweithlu cymwysedig i'r Blynyddoedd Cynnar a all gydweithio mewn ffordd effeithiol ac integredig, er mwyn cyflawni ein dyheadau a'n huchelgeisiau. Mae Ffigur 13 yn crynhoi'r cyfeiriad teithio a nodir yn y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant hwn.



Ffigur 13: Crynodeb lefel uchel o Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2013)

2. Iechyd a lles plant

Caiff sylfeini iechyd da eu gosod yn ystod beichiogrwydd, wedyn yn ystod babandod a datblygir arnynt yn ystod y cyfnod yn yr ysgol. Caiff canlyniadau iechyd da eu cysylltu â nifer o ffactorau amddiffynnol, gan gynnwys beichiogrwydd di-fwg; bwydo ar y fron; imiwneiddio; arferion da o ran deiet ac ymarfer corff; amgylchedd cartref cynnes, diogel; a theulu emosiynol cynhaliol. Fodd bynnag, caiff amrywiaeth o ffactorau risg, megis y fam yn ysmygu, maeth gwael yn ystod beichiogrwydd, problemau iechyd meddwl y fam, tlodi yn ystod plentynod ac esgeulustod neu wrthodiad gan y teulu, eu cysylltu â chanlyniadau negyddol o ran iechyd a lles. Mae ffactorau sy'n gwella iechyd a lles gydol oes, ac yn datblygu gwydnwch plant o ran iechyd gwael yn ystod y blynyddoedd cynnar yn greiddiol i'n hystyriaethau polisi.

Gan adeiladu ar yr egwyddorion a nodir yn y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru* (2005) a'r ymrwymadau yn *Ein Dyfodol Iach* (2010), rydym wedi nodi'r blaenoriaethau gweithredu allweddol yn ystod y blynyddoedd cynnar i wella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau:

- gwasanaethau ataliol
- gwell ansawdd gofal gan wasanaethau iechyd i blant
- gwasanaethau integredig – ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Nodir y dangosyddion canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu* (2011) a'r *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* fel mesurau sylweddol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Cyfraddau:

- marwolaeth babanod a phlant
- pwysau geni isel
- bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed
- pydredd dannedd yn bump oed
- plant, yn ddwy ac yn bump oed, sydd wedi'u himiwneiddio yn erbyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR)
- nifer y plant a gaiff eu derbyn i'r ysbyty ag anafiadau
- plant tair a phump oed y mae eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- plant â lefel pwysau normal yn bump oed.

Atal

Gwnaethom ymrwymiad yn *Ein Dyfodol Iach* i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyriadau cynnar. Mae hyn yn golygu ailgydbwysu gwasanaethau, gan roi mwy o sylw i hyrwyddo, diogelu, cynnal ac adfer iechyd ac annibyniaeth a llai o sylw i opsiynau drutach y gellir eu hosgoi fel trin a gofal. Atgyfnerthodd *Law yn Llaw at Iechyd* (2012) y dull gweithredu hwn. Er mwyn ategu ein blaenoriaeth atal, rydym yn awyddus i sicrhau y caiff ein plant ddechrau da mewn bywyd ac i sicrhau ein bod yn cydweithio i hyrwyddo dewisiadau a ffyrdd o fyw iach.

Sicrhau bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd

Datblygu ein gwasanaethau mamolaeth

Bod yn iach adeg eu geni a thrwy'r blynyddoedd cynnar yw un o ddangosyddion pwysicaf lles plant. Mae pwysau geni normal yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar iechyd cadarnhaol yn y dyfodol ac mae pwysau geni isel yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth o ran iechyd ac addysg. Mae hyn yn her yng Nghymru gan mai canran y merched beichiog sy'n ysmegu ac sydd dros bwysau yw'r ganran uchaf yn y DU a chaiff tua saith y cant o fabanod eu geni gyda phwysau geni isel (llai na 2,500g), ac ni welwyd llawer o welliant o ran yr ystadegyn hwn ers bron i ugain mlynedd.

Mae *Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru* (2011) yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni newid sylweddol ym maes gwasanaethau mamolaeth. Mae'n canolbwyntio ar wella mynediad cynnar i wasanaethau a hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ar gyfer merched beichiog, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd nhw ac iechyd eu teulu. Mae mynediad cynnar i wasanaethau mamolaeth yn rhan hanfodol o'n dull gweithredu ataliol ac mae'n bwysig o ran darparu:

- cyngor cynnar ar ffyrdd o fyw iach (ysmygu, alcohol, bwyta'n iach, ymarfer corff ac ychwanegion fitamin)
- gwasanaeth cyfeirio at wasanaethau cymorth, yn enwedig gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu
- gwybodaeth am wasanaethau lleol, h.y. grwpiau cymorth a dosbarthiadau ymarfer corff
- asesu iechyd meddwl er mwyn cynllunio a chydgysylltu gofal merched â phroblemau iechyd meddwl difrifol sy'n bodoli eisoes.

Felly, rydym wedi cyhoeddi **canllawiau ymarferol a chyngor i fyrdau iechyd lleol sy'n hyrwyddo mynediad uniongyrchol i fydwraig**. Mae'r canllawiau yn cynnwys 'Stori Rhian' (ar gael yn Saesneg yn unig) – sef hanes achos ffuglennol am ferch feichiog y bydd angen trefniadau cydweithredu, cydgysylltu a chyfathrebu rhwng sawl asiantaeth er mwyn cynllunio a darparu ei gofal. Y rhagdybiaeth yw os gallwn ddiwallu anghenion Rhian, byddwn wedi gwella ei hiechyd ac wedi lleihau anghydraddoldebau. Mae hyn yn ategu ein nod i sicrhau bod gan Gymru wasanaeth y gellir ymfalchïo ynddo ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau merched a'u teuluoedd.

Mae'r Bwrdd Mamolaeth newydd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn cyfres o ganlyniadau a mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, gan gynnwys cyfran y merched y cynhelir asesiad cychwynnol ar eu cyfer erbyn iddynt gwblhau 10 wythnos o feichiogrwydd. Er mwyn parhau i wella ansawdd ein gwasanaethau mamolaeth, byddwn yn:

- **rhoi canllawiau NICE** *Quitting Smoking in Pregnancy and Following Childbirth* (2010) ar waith a chynyddu nifer yr ysmygwyr beichiog sy'n cael cynnig rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu
- gweithio gyda'r sector addysg uwch (AU) i sicrhau bod y **cwricwlwm cyn cofrestru ar gyfer bydwreigiaeth yn paratoi bydwragedd** gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i ymateb i heriau cyfoes ym maes iechyd y cyhoedd.

Hyrwyddo dewisiadau a ffyrdd o fyw iach

Mae blynyddoedd cynnar bywyd yn hanfodol o ran datblygiad corfforol a meddyliol iach ac mae angen amgylcheddau diogel a chynhaliol ar blant. Mae ymyrryd ac atal cynnar yn hanfodol. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y grŵp oedran hwn fel a ganlyn:

- iechyd a lles meddyliol ac emosiynol da
- sicrhau y gwneir y cynnydd datblygiadol gorau posibl
- cyrraedd pwysau iach a'i gynnal
- rhyddid rhag mwg ail-law
- iechyd y geg dda
- creu amgylcheddau iach a diogel
- gwell lefelau imiwneiddio.

Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol da

Mae *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* (2012) yn cydnabod yr angen i hyrwyddo gwydnwch a hunanbarch wrth i blant ddatblygu, ac i nodi a lleihau'r risg y bydd y rheini sy'n agored i ddatblygu problemau iechyd meddwl yn eu datblygu. Ar lefel leol, rydym yn disgwyl i:

- fyrrdau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector sicrhau y caiff Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd eu cydgysylltu ac i ymgysylltu â theuluoedd mewn ffordd amserol.

O fewn ysgolion, mae angen i blant gael cymorth drwy ddull gweithredu ysgol gyfan er mwyn sicrhau iechyd a lles meddyliol ac emosiynol da. Gall mynediad cynnar a hawdd i wasanaeth cwnsela mewn ysgolion atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu neu ddod yn fwy difrifol, a gall feithrin ymddiriedaeth a hyder er mwyn galluogi dysgwyr i gael gafael ar wasanaethau mwy arbenigol os bydd eu hangen arnynt. Byddwn yn:

- ystyried ffyrdd i helpu awdurdodau lleol i **ehangu gwasanaethau cwnsela i Flwyddyn 5 ac iau mewn ysgolion**.

Mae chwarae yn greiddiol i iechyd meddwl ac iechyd emosiynol, lles a hapusrwydd plant. Cyflwynwyd Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 fel rhan o'n hymrwymiad i wella cyfleoedd chwarae. Y cam nesaf fydd:

- dechrau'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol **i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae** fel y nodwyd yn eu hasesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a'u cynlluniau gweithredu.

Sicrhau y gwneir y cynnydd datblygiadol gorau posibl

Gall plant wneud cynnydd ar wahanol gyfraddau ond fel arfer, byddant yn gwneud hynny o fewn amrediad datblygiadol cydnabyddedig ar draws amrywiaeth o ddangosyddion. Mae'n bosibl y gellir ymdrin ag unrhyw anhawster datblygiadol, megis oedi wrth siarad neu o ran datblygiad iaith neu o ran cerdded, os sylwir arno yn ystod cam cynnar. Mae'n bwysig y caiff plant ag unrhyw achos sylweddol o oedi eu nodi'n gynnar, ac y cynigir y cymorth cywir er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i ddatblygu i'w llawn botensial.

Mae'n hanfodol sicrhau bod ffordd systematig ar waith o nodi plant â phroblemau, yn enwedig problemau gyda'r golwg a'r clyw, neu unrhyw gyflwr meddygol a all effeithio ar ddatblygiad. Er mwyn ymdrin â hyn, byddwn yn:

- **adolygu'r rhaglen arolygu plant** ar gyfer golwg, clyw, datblygiad a chyflyrau meddygol, er mwyn sicrhau ei bod yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf
- sicrhau y caiff **rhaglen iechyd a lles meddwl plant integredig Cymru gyfan** ei chymhwyso'n gyson er mwyn sicrhau y caiff problemau iechyd a phroblemau datblygiadol eu nodi yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol er mwyn gallu rhoi cymorth cynnar a rhoi camau ymyrryd cynnar ar waith.

Cyrraedd pwysau iach a'i gynnal

Dengys yr adroddiad diweddar *Rhaglen Mesur Plant Cymru* (2013) bod yn ystod 2011–12 cafodd mwy na 70 y cant o blant pedwar i bump oed pwysau iach, tra roedd ychydig dros 28 y cant dros bwysau neu'n ordew. Mae'n hanfodol lleihau cyfran y plant sydd dros bwysau neu'n ordew oherwydd gall maetheg wael a diffyg ymarfer corff ymhlith plant arwain at broblemau iechyd.

Byddwn yn adeiladu ar ein rhaglen waith er mwyn sicrhau y caiff arferion bwyta'n iach eu cefnogi a'u cynnal drwy gydol y blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Mae'r camau nesaf fel a ganlyn:

- cynyddu nifer y mamau sy'n dechrau bwydo eu baban ar y fron ac sy'n parhau i wneud hynny
- sicrhau **bod pob gwasanaeth mamolaeth yn ennill Gwobr Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF** erbyn 2015
- gweithredu darpariaethau'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) fel y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gymryd camau i **hyrwyddo arferion bwyta ac yfed iach** mewn ysgolion a gynhelir yn eu hardal
- cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff

llywodraethu gyrraedd **safonau** mwy caeth o ran **y bwyd a'r ddiod a ddarperir i ddysgwyr** mewn ysgolion

- parhau i gyflwyno rhaglen cyfeirio gordewdra ymhlith plant (e.e. MEND) i blant pump i saith oed, wedi'i thargedu at ardaloedd lle ceir cryn angen ledled Cymru, gan gynnwys plant dros bwysau a gordew a'u teuluoedd er mwyn iddynt gael cymorth i gyflawni a chynnal pwysau corff iach.

Rhyddid rhag mwg ail-law

Byddwn yn diogelu plant rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law. Mae'r ymgyrch Cychwyn Iach ar ysmygu mewn ceir yn mynd rhagddi a byddwn yn:

- **ystyried deddfu i wahardd ysmygu mewn ceir** sy'n cludo plant os na fydd nifer y plant a ddaw i gysylltiad â mwg ail-law yn dechrau gostwng
- **annog cyflwyno polisïau di-fwg** mewn pob man chwarae.

Iechyd y geg dda

Rhwng 2008 a 2012, roedd tua 78,350 o blant mewn dros 1,200 o ysgolion ac ysgolion meithrin wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Cynllun Gwên sydd wedi'i hanelu at blant ysgol feithrin ac ysgol gynradd yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf ac sy'n rhan o'n hymrwymiad i wella iechyd y geg plant yng Nghymru. Gan weithio gydag ysgolion ac ysgolion meithrin, mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn annog plant i frwsio eu dannedd gan ddefnyddio past dannedd fflworid, yn darparu gwasanaeth sgrinio deintyddol ac yn rhoi cyngor ar iechyd y geg dda ac arferion bwyta ac yfed iach. Byddwn yn cynyddu nifer yr ysgolion cymwys sy'n cymryd rhan yn y rhaglen drwy barhau i:

- weithio gyda'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i **sicrhau** y caiff y Rhaglen Cynllun Gwên ehangach ei **rhoi ar waith yn effeithiol**
- **comisiynu gwaith ymchwil annibynnol** i effaith Cynllun Gwên; ac ystyried p'un a yw Cynllun Gwên wedi dylanwadu ar lefelau pydredd ymhlith plant pump oed erbyn 2015, a phlant 12 oed erbyn 2020.

Creu amgylcheddau iach

Cyn belled â phosibl, rydym am i'n plant fod yn hapus, yn ddiogel ac yn iach. Mae darparu amgylchedd iach yn hollbwysig er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau i bob plentyn, gan gynnwys lleihau nifer y damweiniau sy'n digwydd i blant.

Mae ein Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy a Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn ategu'r broses o ddatblygu amgylcheddau dysgu sy'n mynd ati i hybu a chyflwyno iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol, gan weithio gyda'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyntaf. Rydym yn disgwyl i ddysgwyr wneud dewisiadau iachach o ganlyniad i'r rhaglenni hyn. Er mwyn atgyfnerthu hyn, byddwn yn:

- **ehangu'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy a Chynlluniau Ysgolion Iach – Cymru** er mwyn sicrhau erbyn 2014, y bydd 500 o leoliadau yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy, ac y bydd 10 y cant o ysgolion a gynhelir wedi

cyflawni Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru erbyn 2015, gan godi i 20 y cant erbyn 2020

- disgwyl i awdurdodau lleol asesu i ba raddau y maent yn annog ac yn **darparu amgylcheddau iach** i blant chwarae, cerdded neu seiclo i'r ysgol, beicio a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden
- **arwain y ffordd wrth atal anafiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar** drwy ystyried argymhellion yr adroddiad *Baich Anafiadau yng Nghymru* (GIG, 2012) a Cherdyn Cofnodi Diogelwch Plant Ewrop er mwyn lleihau nifer y damweiniau ymhlith plant
- **datblygu strategaeth atal anafiadau i blant ar gyfer Cymru gyfan** wedi'i chydgysylltu ar draws pob gwasanaeth a lleoliad er mwyn lleihau'r risg o farwolaeth ymhlith plant a niwed i blant o ganlyniad i anaf.

Imiwneiddio

Gall imiwneiddio effeithiol achub bywydau a hybu iechyd da. Y targed ar gyfer brechiadau arferol i blant yw cyflawni cyfradd imiwneiddio o 95 y cant ac yn 2011/12, rhagorwyd ar y gyfradd hon ar gyfer plant o dan flwydd oed. Ar gyfer plant hŷn, mae'r duedd hirdymor yn gadarnhaol ond erys islaw'r targed o hyd. Er enghraifft, methodd un o bob pum plentyn a ddechreuodd yn yr ysgol yn 2011/12 yng Nghymru un neu fwy o imiwneiddiadau allweddol. Rydym yn benderfynol o gyrraedd ein targedau imiwneiddio drwy wneud y canlynol:

- gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ac eraill drwy Grŵp Imiwneiddio Cymru i **nodi'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag imiwneiddio**, gwella'r broses o roi rhaglenni brechu ar waith a helpu byrddau iechyd lleol yn eu hymdrechion i wella cyfraddau brechu, yn enwedig ar gyfer grwpiau megis plant sy'n derbyn gofal
- **nodi meysydd lle ceir anghydraddoldeb** gan ddefnyddio adroddiadau lefel leol Iechyd Cyhoeddus Cymru a data cyfrifiad Plant mewn Angen fel y gall byrddau iechyd lleol dargedu practisau lle ceir cyfraddau imiwneiddio is, dysgu gwersi gan bractisau lle ceir cyfraddau uwch, a sicrhau y caiff plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol eu diogelu'n llawn drwy gael eu himiwneiddio
- **codi ymwybyddiaeth o'r angen i frechu plant** yn erbyn effeithiau clefydau difrifol y gallir eu hatal.

Gwella ansawdd y gofal a ddarperir gan wasanaethau iechyd i blant yn ystod y blynyddoedd cynnar

Gwnaethom gyhoeddi *Mwy na geiriau* (2012) a nododd ein strategaeth ar gyfer atgyfnerthu gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'n gosod cyfrifoldeb ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod pawb, gan gynnwys babanod a phlant ifanc, yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae rhai o'n plant yn anabl, mae ganddynt gyflyrau iechyd hirdymor neu anghenion penodol, ac er bod gwasanaethau ar gyfer y plant hyn wedi gwella yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, byddwn yn ceisio gwneud gwelliannau pellach. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn bwriadu datblygu'r canlynol:

- fframwaith canlyniadau sy'n **mesur iechyd a lles cyffredinol plant**, a fydd yn arwain at sefyllfa lle y caiff gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant eu hintegreiddio'n well
- **cynllun anghenion ychwanegol integredig** er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau gofal iechyd eilaidd gan gynnwys pediatreg, therapi lleferydd a therapiau eraill a chymorth datblygiadol, eu cydgysylltu ar gyfer plant ag anghenion gofal iechyd ychwanegol.

Integreiddio gwasanaethau

Dim ond drwy annog gweithwyr proffesiynol ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar i sicrhau eu bod yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd integredig ac amserol y cyflawnir canlyniadau gwell i'n plant. Mae gan lawer ohonynt, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, ran ataliol hanfodol i'w chwarae wrth helpu teuluoedd a'u plant yn ystod y camau datblygiad cynnar iawn yn ogystal â sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd integredig. Rydym yn cydnabod bod hyn yn gymhleth, ond mae trefniadau gweithio aml-asiantaeth effeithiol a threfniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol grwpiau proffesiynol gan gynnwys staff meddygol, nyrsys, staff deintyddol, ymwelwyr iechyd, staff fferyllfa, staff iechyd meddwl, rheolwyr a staff cymorth, yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau integredig effeithlon ac effeithiol i blant. Dyma ofyniad craidd y dull gweithredu ataliol sy'n cael ei roi ar waith drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Rydym yn disgwyl i bob gweithiwr proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar weithio yn y ffordd aml-asiantaeth hon.

Er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i wneud hyn, byddwn yn:

- gweithio tuag at **system fwy cydlynus o asesu plant** yn ystod y blynyddoedd cynnar, a fydd yn hwyluso dull gweithredu cenedlaethol cyson o asesu, olrhain a monitro datblygiad a chynnydd plentyn a gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- datblygu **rhaglen iechyd a lles meddwl plant integredig Cymru gyfan** – rhaglen gynhwysfawr a chyffredinol o hybu iechyd, diogelu a goruchwyllo yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i chysylltu â'r system asesu newydd. Caiff y rhaglen hon ei hategu gan becyn o adnoddau asesu y gall pob darparwr gwasanaeth ac ymarferwr ei ddefnyddio i asesu ac olrhain cynnydd plentyn ar adegau perthnasol o adeg ei eni hyd at saith oed
- cydgysylltu'r llif gwybodaeth a'r broses o gyfnewid gwybodaeth drwy **gofnod iechyd a lles personol plentyn ('llyfr coch')** unwaith y bydd rhaglen iechyd a lles meddwl plant integredig Cymru gyfan wedi'i datblygu. Byddwn yn cydlyn system wybodaeth ategol a chofnod iechyd a lles personol plentyn. Bydd hyn yn cyflwyno dull gweithredu cyson er mwyn sicrhau y gellir olrhain y broses o asesu a monitro datblygiad plentyn drwy gydol y blynyddoedd cynnar ar draws asiantaethau
- **datblygu canllawiau arfer da** er mwyn helpu bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill i gydweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall plant a theuluoedd drosglwyddo'n ddidrafferth ac mewn ffordd gydgysylltiedig rhwng gwasanaethau a chamau datblygiad unigol.

3. Cefnogi teuluoedd a rhieni

Mae teuluoedd cryf a chynhaliol yn hollbwysig wrth greu cymunedau cydlynol, hyrwyddo gwydnwch mewn plant a sicrhau iechyd a lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol da. Maent yn ffactor amddiffynnol i blant sy'n cael eu magu mewn amgylchiadau difreintiedig ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad, dysgu a chanlyniadau plant yn yr ysgol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o newidiadau economaidd, cymdeithasol a demograffig wedi cael effaith sylweddol ar deuluoedd yng Nghymru. Mae rhai nodweddion allweddol yn cynnwys tlodi plant parhaus a chyfraddau beichiogrwydd uwch ymhlith merched yn eu harddegau. Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, gwelwyd cydnabyddiaeth gynyddol, y ceir enghreifftiau ohoni yn ein rhaglen ymyriadau cynnar Teuluoedd yn Gyntaf, o bwysigrwydd trefniadau gweithio aml-asiantaeth a dull gweithredu sy'n cynnwys y teulu cyfan o wella canlyniadau i blant.

Mae teuluoedd a chymunedau yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd y mae plentyn yn datblygu. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda chymunedau i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel a chynhaliol i fagu plant ifanc, gyda thai gweddol a mynediad priodol i wasanaethau, gweithgareddau a chyfleusterau lleol, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae llawer o raglenni eisoes ar waith sy'n cefnogi teuluoedd a rhieni ledled Cymru. Ein ffocws nawr yw:

- gwella canlyniadau i blant drwy **deuluoedd a chymunedau cryf a chynhaliol**
- helpu **rhieni i gymryd rhan yng ngwaith dysgu eu plentyn**
- sicrhau bod **plant yn ddiogel**.

Nodir y dangosyddion canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* fel mesurau sylweddol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Cyfraddau:

- plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir o ran datblygiad neu'n rhagori arnynt yn ddwy oed ac yn dair oed
- plant chwech oed sy'n siarad Cymraeg gartref
- tai cymdeithasol sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020
- teuluoedd digartref, gyda phlant, sy'n byw mewn llety gwely a brecwast
- teuluoedd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol.

Teuluoedd a chymunedau cryf a chynhaliol

Rydym wedi llunio amrywiaeth o raglenni a pholisïau sydd wedi'u cynllunio i helpu teuluoedd, plant a'r cymunedau lle maent yn byw. Mewn hinsawdd economaidd anodd, mae'n bwysig bod y sefydliadau a gaiff eu hariannu i ddarparu'r amrywiaeth eang o wasanaethau yn cydweithio, yn sicrhau'r gwerth gorau am arian ac ar yr un pryd, yn sicrhau y diwellir anghenion amrywiol a heriol teuluoedd.

Byddwn yn canolbwyntio ar:

- gefnogi teuluoedd
- gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal
- cynyddu cyfraddau cofrestru mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Cefnogi teuluoedd

Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael i deuluoedd gan raglenni ymyrryd ac atal cynnar fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Gan adeiladu ar y cynnydd da a wnaed eisoes, byddwn nawr yn:

- **cynnal gwaith ymchwil** i gael gwybodaeth a dealltwriaeth gyfoes, werthfawr i agweddau ac arferion rhianta cyfredol yng Nghymru
- **codi ymwybyddiaeth o dechnegau rhianta cadarnhaol** a dewisiadau disgyblu plant ac eithrio dewisiadau corfforol
- chwarae rhan arweiniol wrth ddatblygu **setiau dysgu cenedlaethol** ac ategu trefniadau rhanbarthol a lleol er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir, arfer da a datblygu trefniadau cydweithio effeithiol
- **adolygu gwasanaethau gwybodaeth** i deuluoedd er mwyn cael darlun clir o'r gwasanaeth sydd ar gael yng Nghymru a sut y gellir ei wella. Caiff set ddysgu ar wasanaethau gwybodaeth ei lansio yn ystod gwanwyn 2013 fel rhan o'r broses adolygu.

Plant sy'n derbyn gofal

Rydym yn deall bod adegau pan fydd rhieni yn ei chael hi'n anodd ymdopi ac y bydd angen gofalu am fabanod a phlant y tu allan i gartref y teulu. Mae plant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth genedlaethol ac i lywodraeth leol ac mae eu diogelu a'u hamddiffyn yn hollbwysig. Nododd y *Rhaglen Lywodraethu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu* ein cynlluniau i wella lles plant sy'n derbyn gofal. Mae ein blaenoriaethau yn cynnwys datblygu'r canlynol:

- **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.** Gan weithio i ddechrau gyda'r sector plant sy'n derbyn gofal, datblygwyd datganiad lles ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013. Bydd rhagor o waith i ddatblygu'r datganiad a phoblogi'r fframwaith canlyniadau yn digwydd dros 2013–14 a 2014–15
- datblygir **meini prawf a safonau perfformiad a gwella**, a fydd yn dwyn gwybodaeth, tystiolaeth a gwaith ymchwil ynghyd er mwyn llywio'r broses o drawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chefnogi'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, yn ystod 2013–14
- strategaeth newydd yn 2013 i ategu ein hamcan o **wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal**, a fydd yn gwella ein gallu i gydgyssylltu gweithgareddau a rhannu arfer da er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn ystod y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth allweddol i raglen newydd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn cydnabod cymhlethdod y problemau a wynebir gan deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd lluosog a phwysigrwydd cefnogi a chynnwys cymunedau lleol wrth gynllunio atebion sy'n diwallu eu hanghenion. Yn ogystal â gweithio gyda 52 o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, bydd y rhaglen yn:

- **defnyddio Cymunedau yn Gyntaf i ymgysylltu â grwpiau 'anodd eu cyrraedd'** ac yn eu helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- **gwella cydlyniad ar lefel leol** drwy gysylltu prosiectau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf yn lleol er mwyn rhoi cymaint o gymorth â phosibl i deuluoedd a phlant
- **datblygu gwasanaethau cymunedol, integredig ymhellach** i deuluoedd mewn tldi nad oes ganddynt anghenion cymhleth er mwyn gwella eu canlyniadau gan gynnwys eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith
- **datblygu'r gweithlu** drwy hyfforddiant ar y Tîm o Amgylch y Teulu a ffyrdd i helpu teuluoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Helpu rhieni i gymryd rhan yn nysgu eu plant

Rydym yn awyddus i rieni allu darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl yn y cartref yn ogystal ag annog mwy o famau a thadau i ddarllen gyda'u plentyn. Mae meithrin sgiliau siarad a gwrando plentyn o'r cam cynharaf yn ategu'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd da a gall eu helpu i gael y cychwyn gorau posibl. Er mwyn ategu hyn, bydd ein pwyslais ar:

- gwella llafaredd, datblygiad iaith a rhifedd
- annog rhieni i gymryd rhan yn y dysgu
- helpu rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog.

Gwella llafaredd, datblygiad iaith a rhifedd

Er mwyn ategu dull gweithredu cydlynus mewn perthynas â llafaredd, datblygiad iaith a rhifedd ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar a gaiff ei integreiddio i'n Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol (RhLIG) a'n Rhaglen Rhifedd Genedlaethol (RhRhG) ac a fydd yn helpu ein hymdrech i leihau anghydraddoldebau, byddwn yn:

- **datblygu anoddau a chyhoeddi canllawiau arfer da** i ymarferwyr a fydd yn eu helpu i roi nifer o flaenoriaethau allweddol ar waith, gan gynnwys cynlluniau iaith a chwarae effeithiol i hyrwyddo datblygiad iaith, datblygu'r amgylchedd dysgu yn y cartref a sgiliau meithrin llafaredd ac iaith. Mae rhai adnoddau ar gael eisoes ar borth Dysgu Cymru

- **helpu rhieni i gymryd rhan yn natblygiad iaith eu plentyn** a'i annog i fwynhau darllen drwy roi deunyddiau darllen 'Dechrau Da' priodol i bob plentyn a rhoi arweiniad i bob rhiant yn ystod archwiliad iechyd eu plentyn yn naw mis ac yn 24 mis. **Darperir deunyddiau a hyfforddiant ychwanegol** mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf er mwyn cynnal y nod o leihau effaith tlodi
- **ariannu Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi i ddarparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg** i blant o adeg eu geni tan y byddant yn yr ysgol, rhwydwaith cymdeithasol i'w theuluoedd a chymorth ac anogaeth i rieni ddarllen storïau a chanu gyda'u plant
- **ariannu cynlluniau Cymraeg i Deuluoedd** i helpu rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n mynd i Gylchoedd Meithrin
- **helpu ysgolion yn ystod y Cyfnod Sylfaen** i weithio gyda rhieni i helpu eu plentyn gartref gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy'r Rhaglen Pori Drwy Stori. Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael adnoddau er mwyn i ysgolion a theuluoedd gydweithio ar sgiliau siarad, gwrando, ysgrifennu, darllen a rhifedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Annog rhieni i gymryd rhan yn y dysgu

Mae annog rhieni i gymryd rhan yn nysgu plant yn arf pwerus o ran gwella eu cyflawniad yn yr ysgol ac yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau a dyheadau plant. Felly, byddwn yn:

- **datblygu canllawiau ar gynnwys rhieni yn effeithiol wrth ddysgu** mewn partneriaeth ag ymarferwyr, gan dynnu sylw at enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio, i ysgolion, darparwyr addysg gynnar, Dechrau'n Deg a lleoliadau gofal plant. Bydd defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ffocws penodol
- **hyrwyddo'r defnydd o'r technegau a ddisgrifir ym Mhecyn Adnoddau Ymddiriedolaeth Sutton** ac yn adroddiad Estyn yn 2012 ar *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion*
- **treialu dulliau Dysgu i'r Teulu yn ystod y blynyddoedd cynnar** er mwyn gwella dealltwriaeth o'r ffyrdd gorau er mwyn helpu rhieni i gefnogi dysgu cynnar eu plant a'u paratoi yn well ar gyfer yr ysgol
- **cynyddu cyllid dros y tair blynedd nesaf ar gyfer Rhaglenni Dysgu i'r Teulu** er mwyn rhoi cymorth lle mae lefelau llythrennedd a rhifedd isel yn atal gwelliannau o ran datblygiad plant
- parhau i gefnogi **rhaglen o ddysgu cymunedol i oedolion** er mwyn sicrhau y caiff rhieni gyfleoedd i wella eu dysgu eu hunain er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant
- **ystyried argymhellion yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ariannu dysgu cymunedol i oedolion**, y disgwylir adroddiad arno yn ystod hydref 2013, mewn perthynas â theuluoedd â phlant yn y blynyddoedd cynnar a chymryd camau perthnasol.

Helpu rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog

Mae plant yn cael budd cymdeithasol o siarad dwy iaith gan eu bod yn gallu cymryd rhan fwy effeithiol mewn dau ddiwylliant. Mae hyn hefyd yn berthnasol i deuluoedd o leiafrifoedd ethnig lle mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 ostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ond cynnydd yn nifer y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg.

Nodir sut y byddem yn cefnogi twf yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd gyda theuluoedd ledled Cymru yn y *Strategaeth Iaith Gymraeg: iaith fyw: iaith byw* (2012). Rydym wrthi'n ei rhoi ar waith drwy:

- Twf, sy'n anelu at **gynyddu cyfraddau trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd** ledled Cymru, drwy godi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg neu ddwyieithrwydd a rhoi cymorth a chynghor i rieni am drosglwyddo iaith yn y teulu ac addysg cyfrwng Cymraeg
- prosiect peilot yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili yw Tyfu gyda'r Gymraeg ac mae'n anelu at **hyrwyddo dwyieithrwydd**, creu rhwydwaith cymdeithasol a fydd yn cefnogi rhieni, **gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhieni** o'r iaith Gymraeg yn ogystal â gwella eu dealltwriaeth o'u rôl bwysig wrth gefnogi datblygiad iaith eu plant
- Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt yn anelu at **gynyddu hyder a'r defnydd o'r Gymraeg** ymhlith rhieni sydd ofn defnyddio'r Gymraeg a newid arferion iaith yn y teulu
- Mae'r cwrs Cymraeg i'r Teulu yn dechrau ar lefel Mynediad **gan helpu rhieni i ddefnyddio'r iaith gyda'u plant o'r cychwyn**
- darperir sesiynau Cymraeg o'r Crud **i rieni newydd a'u babanod**.

I rai teuluoedd yng Nghymru, nid Cymraeg na Saesneg yw eu mamiaith. I'r rhieni hyn, mae Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill yn hanfodol, mae'n galluogi iddynt chwarae rhan weithgar yn natblygiad iaith, llythrennedd a rhifedd eu plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gall fod yn broses hirfaith, ac rydym yn anelu at ddarparu cymaint o gymorth a chyfluoedd â phosibl er mwyn galluogi unigolion i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Fel rhan o'n hymrwymiad, byddwn yn:

- **cyhoeddi datganiad polisi yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cyflwyno Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill** yng Nghymru cyn diwedd 2013. Caiff y datganiad polisi ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a bydd yn anelu at ddarparu eglurder o ran ble y dylai darparwyr anelu eu darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill.

Mae angen cymorth ychwanegol ar blant ifanc o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol, a dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n tangyflawni neu y mae perygl y byddant yn tangyflawni yn yr ysgol gynradd hefyd i'w galluogi i gyflawni eu potensial a chymryd rhan weithredol yn eu cymuned. Mae Gwasanaethau Cyrhaeddiad Addysgol Lleiafrifoedd Ethnig awdurdodau lleol yn darparu

adnoddau a hyfforddiant i ysgolion, athrawon arbenigol a chynorthwyywyr cymorth addysgu sy'n gweithio gyda phlant o dair oed. Yn ogystal, byddwn yn:

- **cynnal asesiad o effaith** gwaith a ariennir drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig ac, yn seiliedig ar dystiolaeth, mireinio'r grant, sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'i dargedu lle y caiff yr effaith fwyaf
- **comisiynu gwaith ymchwil** yn 2013/14 er mwyn nodi anghenion dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig y mae angen cymorth cyfrwng Cymraeg arnynt mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nodi arfer da a gweithredu ar y canfyddiadau.

Cadw plant yn ddiogel

Mae amrywiaeth o raglenni a pholisïau y gellir eu diffinio fel rhai sy'n helpu i gadw plant yn ddiogel. Ystyrir bod diogelu a thai sefydlog yn elfennau allweddol o'r broses o sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn ddiogel.

Diogelu

Mae'n bwysig er mwyn lles plentyn ei fod yn teimlo'n ddiogel. Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal ac mae'n gosod cyfrifoldebau ar asiantaethau i gydweithio er mwyn sicrhau y caiff pob plentyn ei ddiogelu – **mae diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb**.

Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn nodi sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol gydweithio i hyrwyddo lles plant a'u diogelu rhag niwed yng Nghymru. Darperir canllawiau pellach drwy Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan (2008) sy'n cyfuno gwybodaeth a phrofiad cyfun Byrddau Lleol Diogelu Plant, yn darparu safonau cyffredin i dywys arfer diogelu plant ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion diogelu. Mae hyn yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau sy'n hanfodol er mwyn nodi plant sy'n agored i niwed a helpu i'w cadw'n ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth. Gan adeiladu ar hwn byddwn yn:

- rhoi Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith er mwyn **atgyfnerthu trefniadau diogelu ymhellach** yng Nghymru
- sefydlu **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** i roi cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu, camau gweithredu i atgyfnerthu polisi a gwella arfer i blant ac oedolion
- cyhoeddi canllawiau diwygiedig er mwyn **helpu i ddiogelu plant mewn ysgolion**.

Cartrefi cynnes a diogel

Mae sicrhau bod gan bawb gartref sefydlog, fforddiadwy sydd mewn cyflwr da yn rhan sylfaenol o gymdeithas deg a chynhaliol. Mae'n golygu llawer mwy na rhoi to uwch ben rhywun. Mae'n effeithio ar iechyd a lles pobl a'u gallu i ddod o hyd i swydd a'i chadw. I blant, mae'n sylfaen bwysig o ran eu datblygiad, eu hyder a'u lles.

Mae plant a theuluoedd sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod o dan anfantais ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod y math hwn o dai o ansawdd da. Er mwyn ategu hyn, byddwn yn pennu targedau, yn darparu cymorth grant wedi'i gysylltu â chynlluniau cymeradwy, ac yn monitro cyflawniad drwy ffurflenni blynyddol. Bydd hyn, yn ei dro, yn:

- sicrhau bod pob awdurdod tai lleol a chymdeithasau tai **yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru** erbyn 2020
- darparu 7,500 o **gartrefi fforddiadwy** ychwanegol i bobl fyw ynddynt a fydd yn helpu i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi o fewn cymunedau lleol.

Caiff llety ansefydlog neu gyfnodau o ddigartrefedd effaith negyddol ar blentyn gan ei atal rhag creu a chynnal rhwydweithiau anffurfiol a ffurfiol â ffrindiau a sefydliadau statudol megis ysgolion a'r gwasanaeth iechyd. Gall y ffactorau sy'n achosi digartrefedd megis salwch (meddwl a chorfforol), cam-drin domestig a dyled hefyd gael effaith negyddol ar ddatblygiad plentyn. Mae atal digartrefedd ac ansefydlogrwydd o ran tai yn flaenoriaethau allweddol. Rydym eisoes yn helpu cartrefi sy'n agored i niwed i gynnal tenantiaethau drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl a phrosiectau cymorth wedi'u hanelu at atal digartrefedd drwy'r Rhaglen Grant Digartrefedd. Mae'r camau nesaf fel a ganlyn:

- cyflwyno Bil Tai yn ystod hydref 2013 a fydd, ymhlith materion pwysig eraill, yn canolbwyntio ar **atal teuluoedd rhag dod yn ddigartref**
- **darparu gwell sefydlogrwydd i blant** ac unigolion eraill sy'n dioddef cam-drin domestig, drwy'r Papur Gwyn ar Rentu Cartrefi a'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) a fydd yn deillio ohono, drwy alluogi iddynt aros yn eu cartref eu hunain.

4. Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel

Mae gan addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ein hymdrech i drechu tlodi ac anghydraddoldeb fel y nodir yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol*. Dengys gwaith ymchwil fod addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel yn arwain at fuddiannau hirdymor gwell i'n plant ac yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Gall yr addysg a'r gofal cynnar priodol helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwy sefydledig sy'n deillio o fyw mewn amddifadedd, gan gynnwys sgiliau isel ac iechyd gwael a fydd yn cymryd amser i'w goresgyn.

Mae gofal plant hygyrch a fforddiadwy yn galluogi i rieni weithio a hyfforddi a all eu helpu i gyfrannu at yr economi ehangach. Heb hyn, mae rhieni yn ei chael hi'n anodd gweithio a gall diffyg gweithlu amrywiol atal twf busnesau. Mewn hinsawdd economaidd anodd, mae angen i ni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu darpariaeth o ansawdd uchel a fydd yn sicrhau'r canlyniadau datblygiadol gorau i'r plentyn ac addysg a gofal plant cynnar fforddiadwy a hyblyg sy'n ei gwneud hi'n haws i rieni weithio.

Yng Nghymru, rydym eisoes yn darparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i blant cymwys dwy a thair blwydd oed fel rhan o Raglen Dechrau'n Deg ac o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar am ddim i blant tair a phedair oed drwy'r Cyfnod Sylfaen. Rydym hefyd yn darparu grantiau i ariannu gofal plant cofleidiol a gwyliau wedi'i dargedu ac i gynnal y farchnad gofal plant. Rydym yn ymrwymedig i gynnal y buddsoddiad hwn. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn:

- **gwella ansawdd addysg a gofal plant cynnar** gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol – profiad y plentyn, yr amgylchedd, arweinyddiaeth a'r gweithlu
- gwella **hyblygrwydd, hygyrchedd a fforddiadwyedd** addysg a gofal plant cynnar a gweithio gyda'r sector i ymdrin â phryderon allweddol rhieni a darparwyr
- cefnogi plant drwy **ddull gweithredu cyfnod cyfan mewn perthynas ag adegau pontio allweddol**
- **ymgysylltu â'r gymuned fusnes** i hyrwyddo addysg a gofal plant cynnar a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd
- cefnogi a **datblygu'r farchnad gofal plant** mewn partneriaeth â'r sector gofal plant ac awdurdodau lleol i gynyddu capasiti a sicrhau cynaliadwyedd.

Nodir y dangosyddion canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* fel mesurau sylweddol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd:

- nifer y plant sy'n elwa o ddarpariaeth feithrin Dechrau'n Deg
- canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn dair oed
- canran y plant Dechrau'n Deg sydd wedi cofrestru i ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

Gwella ansawdd addysg a gofal plant cynnar

Ein nod yw y bydd pob lleoliad addysg a gofal plant cynnar yng Nghymru o'r ansawdd uchaf gyda ffocws penodol ar arweinyddiaeth, y gweithlu, yr amgylchedd a phrofiad y plentyn. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen system rheoleiddio ac arolygu effeithiol, cymorth i ddarparwyr, trefniadau er mwyn galluogi i rieni gael gafael yn hawdd ar wybodaeth am y ddarpariaeth yn eu hardal a'r safonau ansawdd y dylent eu disgwyl. Yn ddiweddar, rydym wedi **cyhoeddi canllawiau gofal plant Dechrau'n Deg** sy'n nodi'r safonau ansawdd a ddisgwylir mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ac y gall eu defnyddio fel meincnod ar gyfer pob darparwr gofal plant. Mae hyn yn ategu ein nod i ryw raddau, ond er mwyn ei chymryd ymhellach byddwn yn:

- **adolygu'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu presennol ar gyfer y blynyddoedd cynnar** yn 2013 a chymryd camau perthnasol (gweler Adran 6)
- treialu **Fframwaith Dyfarniad Ansawdd** i'w ddefnyddio mewn meithrinfeydd yn 2013–14
- cyhoeddi papur ymgynghori ar **wella safonau ansawdd gofal plant** a chytuno ar ffordd ymlaen erbyn mis Mehefin 2014
- **ymgynghori ar y dull gweithredu cywir ar gyfer y gweithlu addysg a gofal plant cynnar** yng Nghymru mewn perthynas â lefelau cymwysterau gofynnol, arweinyddiaeth graddedigion a datblygiad proffesiynol parhaus (gweler Adran 6)
- datblygu rhaglenni, fel rhan o'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol yr UE (2014–20), er mwyn **gwella sgiliau rhai o aelodau'r gweithlu gofal plant a chwarae**.

Gwella hyblygrwydd a hygyrchedd addysg a gofal plant cynnar

Er mwyn i addysg a gofal plant cynnar fodloni gofynion teuluoedd yng Nghymru, mae angen iddynt fod o safon uchel, ar gael ar yr adegau ac yn y manau lle y mae eu hangen, am bris y gall rhieni ei fforddio ac ar gael i blant o wahanol oedrannau, cefndiroedd, diwylliannau, galluoedd ac anghenion. Dengys gwaith ymchwil cyfredol fod rhieni o'r farn mai cost yw'r prif ffactor sy'n eu hatal rhag defnyddio gofal plant. Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi cymorth drwy Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen a'r Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol er mwyn helpu i ymdrin â'r bylchau hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion rhieni ac felly, byddwn yn gwella:

- hyblygrwydd Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen
- hygyrchedd addysg a gofal plant cynnar
- mynediad i gymorth ariannol ar gyfer gofal plant cofleidol, darpariaeth yn ystod y gwyliau a darpariaeth chwarae.

Gwella hyblygrwydd Dechrau'n Deg

Ein nod yw y caiff Dechrau'n Deg ei chydabod yn rhyngwladol fel rhaglen ymyrryd ac atal cynnar gadarn ac effeithiol. Drwy gynnal ein hymrwymiad i ddyblu rhaglen Dechrau'n

Deg, byddwn yn cyrraedd bron i chwarter yr holl blant yng Nghymru o dan bedair oed, gan gynnig gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys iddynt, cymorth rhianta, datblygiad iaith cynnar a gofal plant rhan amser o ansawdd am ddim i blant dwy i dair oed.

Mae ein tystiolaeth gwerthuso gynnar yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Noda penaethiaid fod y plant hyn yn ymgartrefu'n gyflymach a bod hyder rhieni wedi cynyddu. Mae'r canlyniad cychwynnol hwn yn bwysig a byddwn yn:

- **monitro effaith hirdymor** Dechrau'n Deg a chasglu tystiolaeth gwerthuso am effeithiolrwydd y rhaglen er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol fel y caniateir gan adnoddau
- **cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar rianta** a gwella ein prosesau casglu data er mwyn ein galluogi i fonitro effeithiolrwydd elfen rhianta Dechrau'n Deg.

Mae nifer uchel iawn o blant ledled Cymru yn manteisio ar eu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg; mae'r nifer sy'n manteisio ar yr elfennau allweddol eraill yn dda mewn nifer o awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau bod nifer cyson uchel yn manteisio ar y ddarpariaeth, byddwn yn:

- **adolygu'r cynigion cyfredol a wneir drwy Dechrau'n Deg** erbyn hydref 2013 er mwyn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn mynd i sesiynau tra'n parhau â'r pwyslais ar ddatblygiad plant
- **treialu dulliau gweithredu o fewn gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i rieni**, yn enwedig lle y gallai hyn helpu rhieni i weithio neu ymgymryd â hyfforddiant a threialu opsiynau i sicrhau bod cynifer o rieni â phosibl yn ymgymryd â chysiau rhianta a sesiynau iaith a chwarae.

Gwella hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen (3–4 oed)

Ein huchelgais yw y bydd darpariaeth gyffredinol y Cyfnod Sylfaen yn achub y blaen yn rhyngwladol o ran nifer yr oriau o addysg gynnar am ddim a ddarperir, hyblygrwydd y ddarpariaeth, ansawdd y cwricwlwm a chanlyniadau i'n plant. Fel y caniateir gan adnoddau, ein nod yw cynyddu nifer yr oriau o addysg gynnar am ddim, gan weithio gyda'r sector er mwyn cynyddu capasiti'r system i fodloni'r galw.

Mae canllawiau statudol y Cyfnod Sylfaen ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi y gellir trefnu darpariaeth mewn ffordd hyblyg yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion lleol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cynigir yr oriau mewn symiau cyfwerth dros bedwar neu bum diwrnod gyda'r rhieni wedi'u cyfyngu naill ai i sesiynau'r bore neu'r prynhawn yn unig. Dywed rhieni wrthym y gall y dull gweithredu hwn eu hatal rhag defnyddio'r ddarpariaeth. Byddwn yn:

- **ystyried opsiynau er mwyn gwella hyblygrwydd darpariaeth**
- **llunio canllawiau wedi'u diweddarau i awdurdodau lleol** er mwyn eu cefnogi wrth wella hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen i rieni.

Gwella hygyrchedd addysg a gofal plant cynnar

I rai rhieni, mae amseroedd agor anhyblyg, diffyg gofal gwyliau, bylchau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac anhawster wrth ddod o hyd i ofal plant i bobl anabl hefyd yn bryderon gwirioneddol. Byddwn yn rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- **ymchwilio i anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol**, yn ogystal â'r rheini y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, a datblygu argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol
- **ystyried gwahanol fodelau ar gyfer gofal cofleidiol i blant**, gan gynnwys gofal mewn ysgolion a thrwy ysgolion, yn ystod y tymor ac yn ystod cyfnodau gwyliau a gwneud argymhellion ar gyfer datblygiadau pellach
- gweithio gyda Mudiad Meithrin a darparwyr eraill drwy amrywiaeth o grantiau er mwyn **cynyddu ansawdd a swm y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg** fel bod gan rieni ddewis o ran iaith gyntaf eu lleoliad gofal plant a'r addysg a gaiff eu plant
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer **addysg a gofal plant cynnar cyfrwng Cymraeg** i blant a theuluoedd sydd am gael eu haddysg yn Gymraeg, a sicrhau darpariaeth o'r fath; byddwn yn monitro llwyddiant wrth gyflawni hyn drwy'r asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant, cynlluniau gweithredu gofal plant a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Gwella mynediad i gymorth ariannol ar gyfer gofal plant cofleidiol, darpariaeth yn ystod y gwyliau a darpariaeth chwarae

Mae gofal plant cofleidiol o ansawdd yn hanfodol wrth helpu rhieni i weithio ac ymgymryd â hyfforddiant. Rydym yn darparu £2.3 miliwn bob blwyddyn i awdurdodau lleol drwy'r Grant y Tu Allan i Orlau Ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu gofal plant cofleidiol a gofal plant a chyfleoedd chwarae yn ystod y gwyliau i blant oed ysgol rhwng pedair oed a 18 oed pan gaiff rhai amodau penodol eu bodloni. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i helpu rhieni i ymdopi â chostau gofal plant ac, yn y tymor hwy, os bydd arian ar gael, byddwn yn ystyried buddsoddi ymhellach i helpu'r teuluoedd hynny sydd ei angen fwyaf. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- **adolygu effeithiolrwydd y Grant Gofal Plant y Tu Allan i Orlau Ysgol** ac ystyried opsiynau pellach ar gyfer gwell gofal plant cofleidiol a gofal plant yn ystod y gwyliau a darpariaeth chwarae
- cyflwyno ail ran Cyfleoedd Chwarae, adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a fydd yn **gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae** yn eu hardal leol
- **ymgyngori ar Gynllun Cymeradwyo Gofal Plant Gwirfoddol** ar gyfer darpariaeth i blant dros wyth oed yn ystod 2013, er mwyn galluogi rhieni, pan fyddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, i hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu elfen costau gofal plant y Credyd Cynhwysol. Byddwn yn gweithredu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn 2014

- gweithio **gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i wella ymwybyddiaeth o gymorth ariannol tuag at ofal plant ac i gynyddu nifer y rheini sy'n manteisio ar y cymorth hwn**, drwy helpu eu staff â gwybodaeth a hyfforddiant.

Ymgysylltu â'r gymuned fusnes

Mae darpariaeth gofal plant yn hollbwysig i'r economi. Fel rhan o'n strategaeth economaidd ehangach, byddwn yn hyrwyddo gofal plant a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Bydd ein blaenoriaethau fel a ganlyn:

- **rhoi cyngor i ficrofusnesau a busnesau bach** ar fuddiannau ac ystyriaethau ymarferol mabwysiadu polisiau cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd a buddiannau cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy Rwydwaith Busnes Cymru ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau Chwarae Teg
- **ystyried y potensial o ran annog busnesau i gynnig gofod gwag i ddarparu gofal plant a goblygiadau hynny** er mwyn darparu gofal plant yn agos at eu lleoliadau gwaith. Caiff gweithgor ei sefydlu yn 2013 i ystyried y materion cysylltiedig ac i lunio argymhellion o ran sut y gellir rhoi hyn ar waith.

Cefnogi a datblygu'r farchnad gofal plant

Ledled Cymru, mae gennym farchnad gofal plant fywiog ac amrywiol sy'n helpu rhieni i weithio a hyfforddi. Rydym am weithio gyda'r sector ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddatblygu'r farchnad gofal plant, cynyddu ei capasiti a gwella ansawdd drwy amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Byddwn yn:

- cynnal ymgyrch o hydref 2013 mewn dwy ardal lle mae angen lleoedd gofal plant ychwanegol er mwyn **annog unigolion i ddechrau busnesau gofal plant newydd** a chynnig amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cyngor busnes wedi'i deilwra a hyfforddiant er mwyn ennill cymwysterau gofal plant
- cynnig cyngor ar yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael drwy Fusnes Cymru, er mwyn **datblygu'r farchnad gofal plant**, gan gynnwys cymorth i warchodwyr plant, ehangu busnesau gofal plant
- sicrhau bod **gofal plant yn rhan o brosiectau adfywio neu brosiectau datblygu economaidd o bwys**
- parhau i ddatblygu prosiect peilot Cwmnïau Cymdeithasol Cymru gan weithio i ddatblygu darpariaeth gofal plant a'r cymorth sydd ar gael i rieni ymgymryd â hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gweithle
- ystyried **profi cwmnïau gofal plant cydweithredol** mewn ardaloedd lle nad oes digon o ofal plant yn seiliedig ar fodolau sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU.

5. Addysg gynradd effeithiol

Os ydym am sicrhau continwmm dysgu sy'n mynd i'r afael ag anfantais ac yn rhoi blaenoriaeth i gyfle cyfartal i bob dysgwr, yna rhaid i bob un o'n hysgolion cynradd sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg y mae'n ei haeddu, ei fod yn gwneud y cynnydd priodol ac yn cyflawni ei ddyheadau. Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gael i bob plentyn yng Nghymru, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Gwyddom fod y cyfnod hwn ym mywyd plentyn yn bwysig iawn gan fod y dysgu a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer dysgu drwy gydol yr ysgol a chydol oes.

Mae'r camau gweithredu a nodir yn yr adran hon wedi'u hanelu at y canlynol:

- rhoi **dull gweithredu cydgysylltiedig ar waith er mwyn helpu ysgolion i wella** – drwy'r Cynllun Gwella Ysgolion a thrwy roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIR) ar waith
- **atgyfnerthu'r Cyfnod Sylfaen** – byddwn yn cynnal archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen a'i weithredu i sicrhau bod datblygiad iaith, ochr yn ochr â sgiliau llythrennedd a rhifedd, wrth wraidd dysgu a bod cynnydd o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei arddangos. Byddwn yn gwella trosglwyddo o'r cartref/Dechrau'n Deg/gofal plant ac o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 trwy agweddau cyfnod cyfan ac ysgol gyfan i'r Cyfnod Sylfaen a byddwn yn datblygu dull mwy cytbwys i ddysgu a ysgogir gan oedolyn/plentyn.
- **lleihau anghydraddoldebau** – drwy wneud gwelliannau wrth asesu a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a nodi ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, y Grant ar gyfer Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Nodir y dangosyddion canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* fel mesurau sylweddol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Cyfraddau:

- presenoldeb dysgwyr mewn ysgolion cynradd
- nifer yr ysgolion cynradd a gaiff eu harolygu a gaiff radd 'da' neu 'ardderchog' gan Estyn
- nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) a gaiff eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf)
- nifer y dysgwyr sy'n cyflawni dangosyddion pwnc craidd (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yng Nghyfnod Allweddol 2, 11 oed.

Dull cydgysylltiedig o helpu ysgolion i wella

Rydym yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth ar gyfer gwella canlyniadau addysgol i ddysgwyr yng Nghymru: gwella llythrennedd, gwella rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Er mwyn helpu ysgolion i gyflawni'r gwelliannau hyn, cyflwynwyd amrywiaeth o ddiwygiadau wedi'u hategu gan gynllun gweithredu'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer addysg 3 i 16 oed yng Nghymru sef *Gwella ysgolion* (2012). Mae'n amlinellu ein bwriad i:

- **symud ymlaen â system graddio ar gyfer ysgolion cynradd** a fydd yn darparu dull gweithredu cydgysylltiedig er mwyn sicrhau y caiff ysgolion eu cefnogi a'u herio i wella

- **gwneud newidiadau sylweddol i'r broses o ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion** sy'n anelu at sicrhau bod pob ysgol yn cael y lefel briodol o gymorth a her
- **rhoi sylfaen statudol i gynlluniau datblygu ysgol** yn ystod 2013/14 er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu ei chryfderau a'i meysydd ar gyfer gwella, dadansoddi ei pherfformiad, asesu ffactorau a all effeithio arni yn y dyfodol a phennu blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella
- **adolygu'r disgwyliadau a nodwyd yng Ngorchmynion pwnc presennol y cwrwclwm cenedlaethol**, gan ddisgwyl y bydd trefniadau i roi unrhyw newid ar waith yn dechrau o fis Medi 2014.

Atgyfnerthu'r Cyfnod Sylfaen

Rydym am gael y canlyniadau gorau ar gyfer pob dysgwr beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Canfu tystiolaeth gynnar o adroddiad Estyn *Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011, fod y Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith gadarnhaol yn y rhan fwyaf o ysgolion, gyda phlant pump i chwech oed yn cyflawni'n dda. Yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o ysgolion lle mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus, ceir ffocws ar wella safonau, yn arbennig mewn llythrennedd. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid dyna'r achos. Noda'r adroddiad

- nad yw arweinwyr ac ymarferwyr yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen
- mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid oes digon o addysgu darllen yn uniongyrchol ac ni ddarperir cyfleoedd priodol i blant ymarfer a defnyddio eu medrau darllen bob amser
- er bod y Cyfnod Sylfaen bron ym mhob ysgol yn darparu cyd-destunau cyfoethog a chyfleoedd ysgogol ar gyfer ysgrifennu, mae ystod ac ansawdd gwaith ysgrifenedig plant mewn llawer o ysgolion yn aml yn gyfyngedig oherwydd bod tasgau ysgrifennu yn fformiwlai ac nid ydynt yn ddigon heriol.

Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- cynnal archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen
- datblygu dull gweithredu mwy cytbwys o ran dysgu a ysgogir gan yr oedolyn/plentyn
- gwella trefniadau pontio allweddol drwy ddulliau gweithredu cyfnod cyfan ac ysgol gyfan.

Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen

Yn *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2013) gwnaethom ymrwymiad i gau'r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad rhwng dysgwyr saith oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fel y'i mesurir gan y dangosydd Cyfnod Sylfaen, o 10 y cant erbyn 2017. Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu oddi wrth yr ysgolion a'r lleoliadau sydd yn torri'r cysylltiad rhwng anfantais â pherfformiad gwael ac sy'n arddangos sut maent yn adeiladu ar beth sydd wedi cael ei

gyflawni trwy Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r rhai sy'n ymestyn a chefnogi ein dysgwyr mwyaf galluog. Byddwn yn:

- cynnal **archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen** erbyn mis Mawrth 2014.

Datblygu dull gweithredu mwy cytbwys o ran dysgu a ysgogir gan yr oedolyn/plentyn

Bwriedir i gwricwlwm statudol y Cyfnod Sylfaen weithredu fel fframwaith blaengar ar gyfer plant o dair i saith oed. Mae dull o ddatblygu sgiliau plant sy'n canolbwyntio ar y plentyn cyfan ac o feithrin partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni a chartref y plentyn yn greiddiol i'r cwricwlwm hwn. Cynlluniwyd y fframwaith i adlewyrchu anghenion datblygiadol plant ifanc, lle mae cynnydd yn gyflym, ond yn aml yn anghyson. Felly, nid yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn unig. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac ymarferwyr ddeall sut mae plant yn datblygu a chynllunio cwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol sy'n diwallu anghenion amrywiol pob plentyn ar draws y sbectrwm gallu.

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd eu potensial dysgu, mae'n hanfodol eu bod yn meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog. I bob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen, mae dealltwriaeth ymarferwyr o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn allweddol yn hyn o beth, felly hefyd sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng darparu addysgu uniongyrchol a dysgu o dan arweiniad yr ymarferwr a darparu cyfleoedd cyfoethog ar gyfer dysgu a ysgogir gan y plentyn. Er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn:

- **datblygu canllawiau** er mwyn helpu ymarferwyr i gyflawni'r cydbwysedd hwn gydag astudiaethau achos i ddangos sut y caiff hyn ei gyflawni'n llwyddiannus ar hyn o bryd mewn ysgolion ledled Cymru.

Gwella trefniadau pontio drwy ddulliau gweithredu cyfnod cyfan ac ysgol gyfan

Mae'r cyfnod pontio o'r cartref, gofal plant neu Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen yn amser pwysig i blant a'u teuluoedd. Fel rhan o'r dull gweithredu aml-asiantaeth, er mwyn helpu plant i symud o un cyfnod dysgu i'r cyfnod nesaf, gwella safonau a chanlyniadau addysgol, a sicrhau na chaiff unrhyw blentyn ei golli, rydym am atgyfnerthu'r dulliau gweithredu yn ystod adegau pontio allweddol i blant a'u teuluoedd

Mae'r ffordd y mae lleoliadau Dechrau'n Deg, darparwyr cyn-ysgol a gofal plant, ysgolion a'r gweithwyr proffesiynol allweddol yn y lleoliadau hynny yn cydweithio â'i gilydd yn hollbwysig. Mae penaethiaid y Cyfnod Sylfaen mewn awdurdodau lleol wedi dweud bod plant yn ymgartrefu'n haws yn yr ysgol os caiff y cyfnod pontio ei reoli'n dda. Er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- nodi a **rhannu arfer da o ran rhannu gwybodaeth a rheoli trefniadau pontio effeithiol** rhwng ysgolion a lleoliadau gofal plant – bydd y ffocws cychwynnol ar y cyfnod pontio o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen

- gweithio gyda darparwyr y Cyfnod Sylfaen a gynhelir ac nas cynhelir er mwyn **datblygu canllawiau ar weithio'n effeithiol ar draws cyfnodau**.

Mae tystiolaeth gwerthuso asesiadau Estyn a thystiolaeth gwerthuso arall yn awgrymu mai dull gweithredu ysgol gyfan o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wella safonau, yn arbennig mewn llythrennedd, cynllunio a chefnogi plant, rhieni ac athrawon i ymdopi â'r newidiadau wrth iddynt symud i Gyfnod Allweddol 2. Byddwn yn rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- **nodi a rhannu arfer da er mwyn helpu arweinwyr** ac ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 i ddeall pwysigrwydd y Cyfnod Sylfaen a sut mae'n galluogi dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2
- **sicrhau dull gweithredu ysgol gyfan i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd** drwy roi'r FfLIRh ar waith ar draws pob Maes Dysgu a thrwy ddefnyddio canlyniadau o brofion darllen a rhifedd i lywio camau dysgu nesaf plant. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhan statudol o'r cwricwlwm ysgol ac nid yw'r ffocws ar wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant yn newid yr athroniaeth na'r addysgeg bresennol sy'n sail i'r broses
- **adolygu'r modiwlau hyfforddiant** yn rheolaidd er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar ddarparu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus
- annog datblygiad cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) fel ffordd effeithiol o wella ysgolion; byddwn yn datblygu amrywiaeth o adnoddau er mwyn **helpu ysgolion i ddatblygu CDPau** a all ddangos effaith ar ganlyniadau dysgwyr.

Lleihau anghydraddoldebau

Dyma un o'n prif flaenoriaethau ac mae rhai o'r amcanion allweddol wedi'u nodi yn y *Cynllun Cydraddoldebau Strategol*. Mae'r rhain yn cynnwys helpu dysgwyr o dan anfantais, megis dysgwyr anabl, dysgwyr o leiafrifoedd ethnig penodol a bechgyn o grwpiau cymdeithasol-economaidd is i gyflawni eu potensial. Bydd y ffocws ar gyfer helpu i leihau anghydraddoldebau yn ystod y blynyddoedd cynnar ar:

- ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig
- dysgwyr ag anghenion ychwanegol
- y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Dysgwyr o leiafrifoedd ethnig

Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebwr gan ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig penodol drwy dargedu'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig at y dysgwyr hynny â'r anghenion mwyaf, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Bydd y defnydd o'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i helpu plant o dair oed i feithrin sgiliau iaith yn parhau er mwyn sicrhau y gall eu sgiliau iaith cymdeithasol ac academiaidd ddatblygu

mewn ffordd sy'n golygu y gallant ddilyn cwricwlwm llawn. Gyda'r Grant ar gyfer Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr, byddwn yn parhau i helpu plant tair oed a throsodd i gael addysg. Mae'n cynnwys plant Roma Ewropeaidd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt y cydnabyddir eu hanghenion deuol gan y ffaith eu bod yn gymwys o dan y grant hwn a'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Er mwyn helpu athrawon, byddwn yn:

- **darparu cwricwlwm ar eu cyfer** sy'n dathlu treftadaeth a diwylliant Sipsiwn a Theithwyr er mwyn iddynt allu sicrhau bod y cwricwlwm yn fwy perthnasol i blant Sipsiwn a Theithwyr.

Dysgwyr ag anghenion ychwanegol

Er mwyn helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), rydym yn gweithio i roi diwygiadau sylweddol ar waith o ran y ffordd y caiff eu hanghenion eu hasesu a'u diwallu drwy:

- **ddisodli'r fframwaith deddfwriaethol presennol**, gan ddefnyddio system sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn lle'r 'datganiadau'
- **ehangu'r ystod oedran** i gwmpasu pob dysgwr ag ADY o 0–25 oed
- **cyflwyno dull gweithredu aml-asantiaeth o asesu a chynllunio** rhwng asiantaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol (yn cynnwys y trydydd sector lle y bo'n berthnasol) i'r rheini â'r anghenion mwyaf cymhleth
- cyflwyno dull mwy cyson a phwysleisio pwysigrwydd atal anghytundebau ac anghydfodau drwy sefydlu trefniadau mwy empathetig ar gyfer **gweithio mewn partneriaeth â rhieni, plant a phobl ifanc**, a sefydlu system datrys anghydfodau fel cynsail i gyflwyno cwyn i'r Tribiwnlys AAA yng Nghymru
- darparu **gwell mynediad i wybodaeth a chymorth** – er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda'r holl wasanaethau cymorth eraill i deuluoedd gan gynnwys Cymorth Cynnar a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Anawsterau Dysgu Penodol (ADP) yn gweithio i **ddatblygu fframwaith ar gyfer ADP**. Ein nod yw cyhoeddi'r gwaith cychwynnol erbyn mis Rhagfyr 2014. Fel rhan o'n gwaith i gefnogi ADP, byddwn yn cynnal digwyddiad, yn ystod hydref 2013, i gyflwyno ffyrdd o nodi dysgwyr â dyslecsia yn ystod cam cynnar a rhoi cymorth iddynt.

Grant Amddifadedd Disgyblion

Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i wella canlyniadau plant o gefndiroedd difreintiedig. Rydym wedi cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a oedd yn werth cyfanswm o dros £36 miliwn yn 2013/14. Caiff yr holl arian sy'n gysylltiedig â'r grant ei gyfeirio at ysgolion, er mwyn iddynt fuddsoddi mewn dulliau gweithredu effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag effaith amddifadedd. Mae'r grant hwn yn ategu gweithgareddau a ariennir gan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Cyhoeddwyd canllawiau manwl i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r canlyniadau gofynnol. Byddwn yn gweithio'n agos ag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg i sicrhau bod y gweithgareddau a gefnogir gan y grantiau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd y rheini y mae angen help ychwanegol arnynt. Fel rhan o'r cymorth hwnnw:

- rydym wedi **llunio fframwaith hyfforddi a datblygu cenedlaethol** ar gyfer arweinwyr systemau yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn helpu i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol
- rydym yn ystyried cyflwyno gofyniad i ysgolion, wrth ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, **gymhwyso dulliau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth** – mae gwaith ymchwil Ymddiriedolaeth Sutton, er enghraifft, wedi nodi dulliau gweithredu gwahanol o ran gwella dysgu mewn ysgolion ac mae'n rhoi canllawiau o ran pa ymyriadau sydd fwyaf priodol ar gyfer pa leoliadau ac ym mha bynciau craidd
- byddwn yn **helpu ysgolion i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol**, gan amlygu arfer gorau a strategaethau y gwyddys eu bod yn effeithiol a bod ganddynt effeithiau hirdymor, cynaliadwy
- byddwn yn **datblygu canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau o ran cynnwys cymunedau a theuluoedd yn addysg eu plant** er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn berthnasol ac yn ymestyn y tu hwnt i giatiau'r ysgol
- byddwn yn **nodi ac yn rhannu arfer da** o ran creu cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion cynradd a'r gymuned a'r defnydd gorau o'r Gronfa Arian Cyfatebol Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf newydd sydd wedi'i hanelu at chwalu'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad.

6. Codi safonau

Mae'r cydberthnasau rhwng gwasanaethau a phartneriaid lleol, ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, seilwaith rhanbarthol, yr arolygiaethau, Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol yn bwysig er mwyn galluogi i'r system gyfan weithio'n effeithiol fel y gall ein plant ifancaf a'u teuluoedd gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae'r camau gweithredu a nodir yn yr adran hon wedi'u hanelu at atgyfnerthu partneriaethau a chydberthnasau allweddol y rheini sy'n gweithio ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar, ac maent yn cwmpasu tair blaenoriaeth:

- **atgyfnerthu'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu** – byddwn yn adolygu'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu presennol ar gyfer gofal iechyd, gofal plant ac addysg gynnar
- **datblygu'r gweithlu** – drwy hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar, datblygu setiau dysgu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a datblygu cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar
- **mesur cynnydd** – drwy gyflwyno Fframwaith Canlyniadau Iechyd, y fframwaith datblygu ac asesu'r blynyddoedd cynnar ac ychwanegu'r Cyfnod Sylfaen at Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

Atgyfnerthu trefniadau rheoleiddio ac arolygu

Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddwyd ein bwriad i gyhoeddi Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Rhagwelir y caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn ystod hydref 2013, ac y caiff y Bil ei gyflwyno yn ystod gwanwyn 2015. Yn gyffredinol, bydd y ddeddfwriaeth hon yn cwmpasu:

- rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys darparu gwasanaethau a dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas ag oedolion a phlant
- rheoleiddio a hyfforddi'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol.

Mae angen systemau rheoleiddio ac arolygu arnom sy'n ategu gwelliannau parhaus i systemau ac yn helpu i wella safonau ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r arolygiaethau addysg a gofal plant cynnar, Estyn ac AGGCC, eisoes wedi gwneud newidiadau i'w dulliau arolygu. Fodd bynnag, mae adborth gan ddarparwyr yn awgrymu nad yw'r system arolygu wedi'i hintegreiddio cystal ag y gallai fod nac mor gyd-gefnogol ag y gallai fod. Nid yw deddfwriaeth bresennol yn caniatáu dull lle defnyddir arolygiadau unigol, ac ni fu arolygiadau ar y cyd rhwng Estyn ac AGGCC yn ymarferol yn y gorffennol. Mae cyfle gennym i adolygu'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu hyn ac i ddatblygu system sy'n cefnogi ein huchelgais i wella safonau'n barhaus a, lle y bo'n bosibl, yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol a darparwyr. Felly, byddwn yn rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- **cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'r blynyddoedd cynnar** gan gynnwys y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant* (2012) ac yn cymryd camau perthnasol

- **ystyried newidiadau ar ddyletswyddau awdurdodau lleol** i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant
- **ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio rheoliadau** mewn perthynas ag amseru arolygiadau ysgol Estyn (a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2013) a chyflwyno unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i reoliadau
- **cyfuno ac egluro'r gyfraith mewn perthynas â phwerau ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion** ac awdurdodau lleol a ddaw i rym ar ddiwedd 2013 a datblygu canllawiau statudol newydd yn unol ag amserlen debyg.

Datblygu'r gweithlu

Mae llawer o weithwyr proffesiynol a all ddod i gysylltiad â theulu yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn – bydwagedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, gweithwyr gofal plant a chwarae, athrawon, cynorthwyyr addysgu, gweithwyr cymdeithasol, meddygon a deintyddion ymhlith eraill. Rydym am sicrhau gweithlu medrus, sy'n cael cefnogaeth ddigonol ac sydd wedi'i hyfforddi i lefel uchel sy'n cydweithio fel Tîm o Amgylch y Teulu. Ymdrinnir â sawl agwedd ar ddatblygu'r gweithlu a'i hyfforddi o fewn strategaethau a chynlluniau eraill; cyfrifoldeb comisiynwyr, cyflogwyr ac arweinwyr lleol yw sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Fodd bynnag, nodir yma y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar.

Gweithlu cyfan

Ein nod yw sicrhau y caiff hawliau plant eu cynnwys ym mhob peth a wnawn i helpu plant a'u teuluoedd. Ategir hyn gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Er mwyn cefnogi pawb yn y gweithlu, rydym wedi datblygu **modiwl hyfforddiant ar-lein** byr sydd ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/onlinecourse/?skip=1&lang=cy

Y gweithlu iechyd

Mae gan weithwyr iechyd proffesiynol ran sylweddol i'w chwarae ym mywydau pob teulu yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar. Maent yn ymgymryd â hyfforddiant clinigol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol i ymuno â'u dewis broffesiwn. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi cymhwyso, fel sawl un arall, yn ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn cynnal a diweddarau eu gwybodaeth, ac er mwyn datblygu sgiliau penodol. Fodd bynnag, mae angen adolygu cynnwys cwricwla yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ag anghenion gofal iechyd ein poblogaeth.

- Erbyn hyn, mae angen sgiliau ar fydwagedd i wella trefniadau cydweithredu aml-asiantaeth a chydgyssylltu gofal yn ogystal â gwybodaeth gynyddol o sut i annog a chymhell newid mewn ymddygiad. I'r perwyl hwn, cafodd bydwagedd eu cynnwys fel rhan o raglen hyfforddi beilot ar gyfer dulliau cyfweld ysgogiadol. Disgwylir y bydd y rhaglen hon yn gwella sgiliau bydwagedd wrth annog newid mewn ymddygiad merched

beichiog, yn enwedig mewn perthynas ag ysmegu, bwyta'n iach a magu pwysau iach yn ystod beichiogrwydd. Defnyddir y gwerthusiad o'r rhaglen hon, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod 2013, i benderfynu pa un a ddylid cyflwyno'r hyfforddiant hwn i bob bydwraig a'i gynnwys yn y cwricwlwm i israddedigion.

- Mae ymwelwyr iechyd yn adolygu eu rhaglen addysg er mwyn sicrhau ei bod yn gwneud y gorau o'u gallu i gyfrannu at iechyd a hapusrwydd plant a'u teuluoedd. Caiff y gwaith ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.
- Cynhelir trafodaethau yn ystod 2013 am sut i wella'r cydweithredu rhwng bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgir.
- Yn ystod 2013, bydd timau deintyddol yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn gallu defnyddio *Delivering Better Oral Health* (2013), sef adnodd iechyd y geg yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael yn Saesneg yn unig. Fe'i cynlluniwyd i helpu timau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w cleifion a gofalwyr am iechyd y geg. Bydd adran ddeintyddol Prifysgol Caerdydd i ôl-raddedigion yn cynnig hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio.
- Mae cynlluniau fel Twf a hyfforddiant Dechrau Da yn llwyddo i gyflwyno pwysigrwydd trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd i waith bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Maent hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau bod yn ddwyieithog. Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith da hwn, gan wella'r ffordd rydym yn helpu gweithwyr yn y sector iechyd i gyfleu buddiannau dwyieithrwydd i'r gyngulleidfa darged.

Y gweithlu gofal plant a chwarae

Dynodwyd gofal plant fel maes blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig ar waith a chytunwyd i ariannu nifer o leoedd ychwanegol i ennill cymwysterau gofal plant, er mwyn cefnogi'r nod o ehangu Dechrau'n Deg. Yn ogystal, bydd Cyngor Gofal Cymru, fel rhan o'i gytundeb i ddatblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn:

- **gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cymwysterau lefel gradd sy'n bodoli eisoes** er mwyn cynyddu nifer y graddedigion sy'n gweithio yn y sector gofal plant
- **sicrhau bod fframweithiau prentisiaeth yn diwallu anghenion y sector** ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd, gan gynnwys fframwaith Lefel 5 newydd ar gyfer ymarferwyr uwch ac arweinwyr/rheolwyr
- datblygu a hyrwyddo cyhoeddiadau i **gefnogi'r gweithlu gofal plant**, yn arbennig y *Fframwaith Sefydlu a'r Flwyddyn gyntaf fel Rheolwr ym maes y Blynyddoedd Cynnar*
- datblygu a chefnogi'r broses o roi **fframwaith DPP ar waith ar gyfer ymarferwyr Dechrau'n Deg** er mwyn sicrhau cysondeb o fewn rhaglenni datblygu staff ledled Cymru
- drwy **Gynllun Gweithredu'r Iaith Cymraeg** Cyngor Gofal Cymru, helpu gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant i feithrin sgiliau i weithio mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac i ddarparu cyfleoedd Cymraeg i blant mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod lleoliadau â staff sy'n meddu ar gymwysterau uwch o ansawdd uwch a bod eu plant yn gwneud mwy o gynnydd. Amlygodd arolwg 2012 o'r Gweithlu Gofal Plant y bwlch rhwng cymwysterau'r gweithlu gofal plant ledled Cymru. Felly mae'n hanfodol ein bod yn helpu'r gweithlu gofal plant i ennill y cymwysterau a meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Byddwn yn:

- ymgynghori ar y dull gweithredu cywir ar gyfer y gweithlu gofal plant yng Nghymru mewn perthynas â **lefelau cymwysterau gofynnol, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa**, cytuno ar y camau nesaf a **datblygu cynllun 10 mlynedd i'r gweithlu**
- **sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr Cymraeg yn y sector** drwy'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol, Cam wrth Gam, y cynllun Geiriau Bach presennol ac unrhyw gynllun yn y dyfodol yn ogystal â defnydd awdurdodau lleol o Grant y Gymraeg mewn Addysg
- annog Cynghorau Sgiliau Sector, drwy drefniadau ariannu sy'n bodoli eisoes, er enghraifft Peilot Ariannu Blaenoriaethau'r Sector, **i gynyddu nifer y gweithwyr chwarae a'r staff gofal plant â chymwysterau ar lefel tystysgrif a diploma Lefel 3**
- fel y caniateir yn ariannol, **creu rhwydweithiau datblygu a dysgu proffesiynol** ar draws y sector, gan roi blaenoriaeth i warchodwyr plant yn gyntaf.

O ran y gweithlu chwarae, byddwn yn parhau i weithio gyda SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gwaith chwarae, a gyda Chwarae Cymru i sicrhau bod digon o weithwyr chwarae cymwys ar y lefel ofynnol i ddiwallu anghenion y sector chwarae yn gyffredinol ac ar gyfer cynlluniau gofal cofleidiol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau.

Staff cymorth mewn ysgolion

Yng Nghymru, ar hyn o bryd nid oes gofynion penodol o ran cymwysterau i staff cymorth mewn ysgolion, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chefnogi'r addysgu a'r dysgu. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, byddwn yn:

- cynnal adolygiad o'r **gofynion presennol sydd ar gael o ran cymwysterau i staff cymorth** sy'n gweithio mewn ysgolion ar wahanol lefelau yn yr ystafell ddosbarth a datblygu opsiynau ar gyfer gofynion cymwysterau ar gyfer y dyfodol erbyn mis Hydref 2013 – gwneir hyn mewn partneriaeth ag undebau a chyflogwyr
- cyhoeddi cynigion penodol ar gyfer cyflwyno **gofynion cymwysterau gofynnol** ar gyfer aelodau penodol o staff cymorth mewn ysgolion ym mis Ionawr 2014.

Yn ogystal, byddwn yn:

- **cynnal ymarfer cynhwysfawr i fapio anghenion a darpariaeth arbenigol** mewn perthynas ag ADY, yn ystod 2013, a ddefnyddir i lywio'r broses o ddatblygu'r gweithlu a pholisi.

Y Tîm o Amgylch y Teulu

Un o nodau allweddol Teuluoedd yn Gyntaf yw sicrhau bod gan bob awdurdod lleol, gan weithio gyda'i bartneriaid, Dimau o Amgylch y Teulu. Mae'r dull gweithredu hwn yn ddull atal a chymorth cynnar sy'n dod ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ynghyd i weithio gyda theulu er mwyn helpu gyda'u hanghenion a datblygu gwydnwch y teulu. Mae canfyddiadau gwerthusiad interim Teuluoedd yn Gyntaf, a rannwyd yn y set dysgu cenedlaethol cyntaf ym mis Ionawr 2013, yn awgrymu bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau yn cydnabod y bydd angen iddynt weithio mewn ffordd wahanol, er enghraifft mae pedwar awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull gweithredu aml-ardal yn seiliedig ar dimau. Er mwyn ategu'r broses o ddatblygu'r dulliau gweithredu hyn ymhellach, byddwn yn:

- **asesu a monitro cynlluniau lleol** er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cydweithio
- **annog mwy o gydlynid ar draws rhaglenni** gan gynnwys Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Rhaglenni Dysgu i'r Teulu a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol

Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* (2011) yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y dyfodol, gan adeiladu ar lwyddiannau'r 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys o ran recriwtio a chadw, safonau ansawdd a phartneriaethau cryfach rhwng cyflogwyr a darparwyr. Mae'r radd gwaith cymdeithasol, y flwyddyn ymarfer gyntaf a chynnwys hyfforddiant hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy a thrwy'r rhaglen i roi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ar waith, byddwn yn:

- datblygu **strategaeth 10 mlynedd i'r gweithlu**
- gwella ansawdd arweinyddiaeth drwy raglen genedlaethol i **ddatblygu uwch reolwyr** er mwyn herio arweinwyr presennol a datblygu arweinwyr y dyfodol
- rhoi **llwybrau gyrfa** clir ar waith ar gyfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol
- **datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer addysg a dysgu proffesiynol parhaus** i weithwyr cymdeithasol, ac ystyried yr un peth i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Rhannu gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth bersonol ymhlith darparwyr partner yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol o fewn darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Gall rhannu gwybodaeth bersonol fod yn heriol o ystyried rhwystrau fel ofnau o ran dyletswyddau cyfreithiol, anghydnawsedd systemau a phrosesau gwybodaeth ac anghysondeb o ran arfer rhannu o fewn sectorau a rhwng sectorau, y mae pob un ohonynt yn effeithio ar barodrwydd a hyder i rannu.

Byddwn yn parhau i annog gwelliant ac i hyrwyddo'r defnydd o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) fel y sail ar gyfer pob achos o rannu gwybodaeth. Gall proses unigol wella'r gallu i drosglwyddo sgiliau ac arbenigedd ac effeithlonrwydd, gan leihau achosion o ddyblygu wrth ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth. Unwaith y caiff protocol rhannu gwybodaeth ei gadarnhau, gellir ei addasu ar gyfer gwasanaeth â'r un diben rywle arall, gan leihau'r cyfnod datblygu. Er enghraifft, datblygwyd protocolau rhannu gwybodaeth Dechrau'n Deg gan Dorfaen a Sir Ddinbych a gellir eu haddasu i'w defnyddio mewn ardaloedd eraill. Am ragor o wybodaeth gweler www.waspi.org.

Mae Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus o brif weithredwyr, gan gydnabod bod angen gwella arfer, wedi cyflwyno her arweinyddiaeth gyfunol i brif weithredwyr wella eu trefniadau rhannu gwybodaeth a defnyddio WASPI fel y sail unigol. Fel cam gweithredu cyntaf, mae'r prif weithredwyr a'u penaethiaid llywodraethu gwybodaeth yn cwrdd i drafod y ffactorau sy'n eu hatal rhag rhannu a sut y gellir eu datrys, yn unigol a thrwy gydweithredu.

Er mwyn ategu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sefydlu gwasanaeth WASPI am gyfnod o ddwy flynedd a fydd yn rhoi cyngor ar y defnydd o WASPI, datblygu protocolau rhannu gwybodaeth lleol a hyfforddi staff. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro gwelliant o ran arfer lleol a'r defnydd o WASPI.

Mesur cynnydd

Datblygu ac asesu yn y Blynyddoedd Cynnar

Gall systemau effeithiol fesur cynnydd dros amser ac mae angen i ni ystyried y ffordd orau i gynllunio dull gweithredu sy'n casglu gwybodaeth unwaith ond yn ei defnyddio sawl gwaith.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddull cenedlaethol cyson o fesur cynnydd plentyn, na rhannu gwybodaeth am gynnydd plentyn rhwng asiantaethau. O ganlyniad, er y caiff plentyn o bosibl ei asesu gan wahanol weithwyr proffesiynol ar wahanol adegau yn ystod y blynyddoedd cynnar, nid yw'r darlun o'i gynnydd datblygiadol rhwng adeg ei eni a saith oed yn gyflawn. Rydym yn mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth drwy:

- weithio tuag at **system fwy cydlynus o asesu**, olrhain a monitro datblygiad a chynnydd plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar, a gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- treialu adnoddau asesu, gan gynnwys adnodd newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, er mwyn olrhain cynnydd o fynediad i'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd y cyfnod. Datblygir fframwaith datblygu ac asesu yn ystod 2013–14 hefyd. Yn amodol ar werthusiad, byddant yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru yn 2014–15. Byddant yn addas i ddefnyddio gan amryw o ddarparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr i asesu ac olrhain cynnydd plentyn ar adegau perthnasol o enedigaeth hyd at saith mlwydd oed.

Yn ogystal, bydd gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol gan gynnwys imiwneiddio, hybu a diogelu iechyd, sgrinio ac archwiliadau datblygiadol, yn cymryd rhan mewn **adolygiad yn ystod 2013 i argymhell y cynnwys a'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer goruchwylio iechyd plant**, ffurfweddu a sgiliau'r gweithlu.

Monitro cynnydd yn yr ysgol

Mae'r defnydd o ddata mewn ysgolion yn bwysig ac yn darparu man cychwyn ar gyfer arolygiadau Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiadau perfformiad i ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan fel rhan o'r polisi ar gyfer hunanwerthuso ysgolion. Mae Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn cynnwys dadansoddiadau perfformiad yn ôl rhyw ac yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim yn ogystal â data cyd-destun am gefndir ethnig dysgwyr, nifer y dysgwyr ag AAA a nifer y dysgwyr â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r data yn cynnwys tueddiadau dros amser a chymariaethau ag ysgolion eraill yn y teulu (grŵp o ysgolion sy'n wynebu lefel her debyg), cyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru. Felly gall ysgolion weld pa mor dda y mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn perfformio ac ymdrin ag unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae hyn yn chwarae rhan bwysig o ran hyrwyddo gwelliant parhaus mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn y sector a gynhelir. Mae o leiaf dri tharged ysgol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir drwy'r broses hunanwerthuso ysgolion ac mae'n ofynnol i ysgolion gyhoeddi'r adroddiad diweddaraf ar berfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol.

Yn ddiweddar, lansiwyd **gwefan newydd gennym o'r enw 'Fy Ysgol Leol'** (www.myllocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym). Ei phrif ffocws yw darparu **data i rieni**.

Ochr yn ochr â hyn, er mwyn ategu gwelliannau wrth ddeall a mesur cynnydd drwy'r Cyfnod Sylfaen:

- dylai **data profion darllen a rhifedd** newydd ddarparu safbwynt mwy cyson ar gynnydd ar lefel genedlaethol a byddwn yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â charfan Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen.

7. Rhoi'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar waith

Yn y cynllun hwn, rydym wedi nodi rhaglen newid uchelgeisiol a heriol. Er mwyn cyflawni'n effeithiol, bydd angen i bartneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol gydweithio'n agosach, bod yn eglur ynghylch rolau a chyfrifoldebau sefydliadol ac unigol a chydbwyso'r adnoddau sydd ar gael yn erbyn yr angen i gyflawni canlyniadau a rennir. Rydym wedi nodi ein blaenoriaethau a'n disgwyliadau ond yn cydnabod mai awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd, a'u rhwydwaith o bartneriaid, fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau statudol a gwasanaethau allweddol eraill. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn:

- datblygu **fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar**, a fydd yn ystyried fframweithiau sy'n bodoli eisoes sy'n cefnogi plant a theuluoedd ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar, ac ymgynghori arno
- datblygu **rhaglen iechyd a lles meddwl plant integredig i Gymru gyfan** sy'n sicrhau bod ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n hyrwyddo'r canlyniadau dymunol ar gael i bawb, er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau a'u lleihau
- gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod **cysylltiadau cryf rhwng y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant hwn a'r holl ymyriadau sy'n seiliedig ar iechyd** gan gynnwys sgrinio, addysg iechyd, imiwneiddiadau a diogelwch plant a gwerthusiadau a gynhelir gan y Rhaglen Blynyddoedd Cynnar a'r Arsyllfa
- disgwyl i **fyrddau gwasanaeth lleol gynnwys canlyniadau'r blynyddoedd cynnar** o fewn eu Cynlluniau Integredig Sengl a'u hasesiadau anghenion strategol, yn arbennig mewn perthynas â'r ddyletswydd tlodi plant statudol.

Lle ceir datblygiad polisi cenedlaethol sy'n gofyn am arbenigedd newydd, cyflymder gweithredu neu waith safoni ledled Cymru (er enghraifft, fframwaith datblygu ac asesu'r blynyddoedd cynnar neu'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol), byddwn yn comisiynu cymorth datblygu ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i'w weithredu. Lle ceir angen clir i feithrin capasiti neu lle bo'r ddarpariaeth leol yn wan, byddwn yn comisiynu cymorth er mwyn helpu i lenwi bylchau sylweddol.

Mae angen i lawer o bartneriaid gydweithio er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant hwn. Mae Ffigur 14 yn crynhoi'r camau gweithredu allweddol y mae angen i bartneriaid eu cymryd er mwyn sicrhau y caiff plant yng Nghymru y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae Ffigur 15 yn cyfuno'r canlyniadau allweddol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac mae Ffigur 16 yn dangos y llinell amser lefel uchel ar gyfer cyflawni ymrwymïadau allweddol y cynllun.

Ffigur 14: Crynodeb o'r camau gweithredu allweddol yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant

	Partneriaid Lleol	Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Iechyd a lles plant	- Defnyddio'r pecyn adnoddau arfer da i gynllunio gwasanaethau a sicrhau parhad i'r plentyn. - Ystyried cyfleoedd i gymryd rhan yn y Cynllun Cyfeillgar i Fabanod. - Ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol i weithio i ddod yn lleoliadau iach. - Hyrwyddo iechyd meddwl plant ym mhob lleoliad. - Rhoi mesurau diogelwch plant effeithiol ar waith ym mhob lleoliad. - Pob lleoliad cyn-ysgol i ddilyn canllawiau <i>Gwylwch y germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Meithrinfeydd, Grwpiau Chwarae a Sefydliadau Gofal Plant eraill</i> (2006). - Ysgolion i ddefnyddio <i>Dysgwch wers i germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd</i> (2006) - Nyrsys ysgol yn cynnal ac yn goruchwyllo'r rhaglen mesur plant ym mhob ysgol gynradd, a sicrhau y caiff data ei gofnodi'n lleol. - Annog pob lleoliad i roi'r Rhaglen Cynllun Gwên ar waith gan gynnwys ysgolion a sefydliadau cyn-ysgol.	- Byrddau iechyd lleol i roi trefniadau mynediad uniongyrchol i fydwaig ar waith. - Byrddau iechyd lleol i rannu arfer da ym maes gwasanaethau mamolaeth er mwyn gwella'r ddarpariaeth lleol. - Byrddau iechyd lleol i dreialu a gweithredu rhaglen iechyd a lles meddwl plant Cymru gyfan a'r cofnod iechyd plant personol. - Arweinwyr proffesiynol ym maes iechyd plant a phenaethiaid bydwreigiaeth i ddatblygu canllawiau ar archwiliadau datblygiad plant a lles meddwl a'u rhoi ar waith. - Byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid i weithredu a gwerthuso mesurau diogelwch plant effeithiol ym mhob lleoliad. - Byrddau iechyd lleol i weithredu'r Cynllun Cyfeillgar i Fabanod yn lleol gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru. - Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu canllawiau a data i ategu'r rhaglen mesur plant, Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan a'r adolygiad o farwolaethau ymhlith plant. - Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd i helpu i gyflwyno a gwerthuso Rhaglen Cynllun Gwên.	- Cyhoeddi canllawiau i fydwragedd, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol er mwyn sicrhau trefniadau pontio didrafferth i blant a theuluoedd. - Cyhoeddi canllawiau ymarferol a chyngor ar wella mynediad uniongyrchol i fydwaig. - Datblygu rhaglen iechyd a lles meddwl plant integredig i Gymru gyfan a'r Cofnod Iechyd Plant Personol. - Gweithio gydag arweinwyr proffesiynol ym maes iechyd i ddatblygu dangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad. - Datblygu strategaeth diogelwch plant Cymru gyfan. - Datblygu dull integredig o ddefnyddio dangosyddion perfformiad a mesurau canlyniadau i nyrsys ysgol. - Rhoi'r rhaglen mesur plant ar waith. - Gyda'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, gwella nifer y lleoliadau sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Cynllun Gwên. - Sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. - Dechrau rhan 2 o'r ddeddfwriaeth digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

	Partneriaid Lleol	Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Iechyd a lles plant		- Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i helpu i ehangu Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy i leoliadau cyn-ysgol ychwanegol. - Awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.	

	Partneriaid Lleol	Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Cefnogi teuluoedd a rhieni	- Cymryd rhan yn setiau dysgu Teuluoedd yn Gyntaf a pharhau i ddatblygu arfer effeithiol. - Drwy Cymunedau yn Gyntaf, helpu grwpiau anodd eu cyrraedd i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. - Darparwyr gofal plant ac ysgolion i weithio'n agos gyda rhieni i ategu dysgu eu plant. - Ysgolion i fynd ati i ddefnyddio adnoddau Pori Drwy Stori. - Ysgolion i ddefnyddio pecyn adnoddau Ymddiriedolaeth Sutton, ac adnoddau eraill sydd ar gael, i gynyddu effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion.	- Ymgysylltu'n weithredol â setiau dysgu Teuluoedd yn Gyntaf a rhannu arfer effeithiol. - Awdurdodau lleol i gefnogi gwell trefniadau cydgysylltu ar lefel leol drwy gysylltu Prosiectau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf er mwyn helpu teuluoedd a phlant. - Awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn parhau i ddarparu dysgu cymunedol i oedolion, gan flaenoriaethu'r broses o gyflwyno cyrsiau sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. - Sefydlu Byrddau Diogelu Plant rhanbarthol newydd.	- Cynnal gwaith ymchwil i agweddau rhianta. - Creu setiau dysgu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. - Datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. - Cyhoeddi canllawiau ar sut y gall rhieni gymryd rhan effeithiol yn y dysgu. - Cyflwyno Pori Drwy Stori er mwyn helpu rhieni i helpu eu plant gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd. - Treialu dulliau dysgu i'r teulu yn ystod y blynyddoedd cynnar. - Cyhoeddi'r datganiad polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. - Gwella ansawdd cartrefi yn y sector cymdeithasol drwy Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). - Deddfu i ddarparu mwy o sefydlogrwydd i blant mewn perthynas â thai.

	Partneriaid Lleol	Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel	- Lleoliadau Dechrau'n Deg i roi'r canllawiau gofal plant newydd ar waith. - Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau bod rhieni yn cael y cyngor sydd ei angen arnynt am ddarpariaeth gofal plant a'r cymorth ariannol sydd ar gael.	- Awdurdodau Lleol i sicrhau bod lleoliadau Dechrau'n Deg yn rhoi'r canllawiau gofal plant newydd ar waith. - Awdurdodau Lleol i ystyried addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynllunio ar gyfer darpariaeth o'r fath.	- Cyhoeddi canllawiau gofal plant Dechrau'n Deg. - Cynnal adolygiad o grantiau penodol. - Cyhoeddi gwybodaeth i rieni am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant. - Cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar rianta. - Treialu mentrau i gefnogi a datblygu'r farchnad gofal plant. - Treialu dulliau hyblyg mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen a llunio canllawiau yn seiliedig ar y canfyddiadau. - Ymchwilio i anghenion rhieni mewn perthynas â gofal plant.

	Partneriaid lleol	Awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Addysg gynradd effeithiol	- Ysgolion i sefydlu dull ysgol gyfan mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen. - Defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh), y profion a'r cymorth sydd ar gael, i gynllunio eu cwricwlwm, monitro cynnydd dysgwyr, llywio hunanwerthusiadau, cyflwyno adroddiadau i rieni a nodi lle y mae angen cymorth dysgu. - Gweinyddu'r profion darllen a rhifedd, dadansoddi a defnyddio'r data ar lefel dysgwyr unigol ac ar lefel grwpiau i amlinellu'r camau nesaf ac i ymdrin â bylchau dysgu a phroblemau mewn ffordd greadigol a rhagweithiol er mwyn gwella safonau. - Defnyddio'r profion darllen a rhifedd newydd ar lefel ysgol gyfan i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella o ran yr addysgu a'r dysgu.	- Consortia i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd wrth wraidd eu prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion i wella. - Consortia i arwain y broses o nodi a defnyddio athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd. - Monitro cynnydd ysgolion o ran y profion darllen a rhifedd, darparu cymorth a herio'n briodol.	- Nodi a rhannu arfer da o ran dull ysgol gyfan mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen. - Cyhoeddi canllawiau ar ddatblygu dull mwy cytbwys mewn perthynas â dysgu a ysgogir gan yr oedolyn/plentyn - Cyflwyno fframwaith hyfforddi a datblygu ar gyfer arweinwyr system. - Datblygu pecyn adnoddau Ymddiriedolaeth Sutton i'w ddefnyddio yng Nghymru. - Deddfu i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer cyflwyno datganiadau ac asesu plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). - Datblygu dull gweithredu ar gyfer system raddio genedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. - Cyhoeddi adnoddau a deunyddiau addysgu o ansawdd uchel ym maes llythrennedd a rhifedd. - Datblygu a chyflwyno rhaglen o gymorth cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. - Mireinio'r profion darllen a datblygu profion rhifedd.

	Partneriaid Lleol	Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Codi safonau	• Annog pob aelod o staff i gwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). • Cymryd rhan mewn cymuned dysgu proffesiynol.	• Cydweithio i helpu plant a theuluoedd ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar. • Byrddau gwasanaeth lleol i gynnwys canlyniadau'r blynyddoedd cynnar o fewn eu hasesiadau anghenion strategol a'u cynlluniau integredig sengl. • Ymateb yn rhagweithiol i'r meysydd ar gyfer gwella a nodir drwy arolygiadau.	• Cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'r blynyddoedd cynnar. • Adolygu dyletswydd yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar awdurdodau lleol. • Datblygu cynigion i ddiwygio'r drefn ar gyfer amseru arolygiadau ysgol Estyn yn dilyn ymgynghoriad. • Egluro'r rheoliadau o ran ymyriadau ysgol. • Datblygu cynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar. • Ystyried y gofynion cymwysterau gofynnol ar gyfer gweithwyr gofal plant a staff cymorth mewn ysgolion. • Datblygu Cynllun ar gyfer y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol. • Annog y defnydd o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). • Gweithio tuag at ddull mwy cyson o ddatblygu ac asesu yn y blynyddoedd cynnar. • Ymgynghori ar Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.

Ffigur 15: Canlyniadau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar wedi'u hategu gan yr ymrwymïadau a'r camau gweithredu yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Fel y nodir uchod, byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar. Rydym yn cydnabod yr angen i ystyried nifer o fframweithiau sydd eisoes ar waith neu'n cael eu datblygu, er enghraifft, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a'r canlyniadau canlynol a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Iechyd a lles plant

- Cyfraddau marwolaeth babanod a phlant.
- Canran y genedigaethau byw â phwysau geni o lai na 2,500g.
- Canran sy'n bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed.
- Pydredd dannedd yn bump oed.
- Canran y plant, yn ddwy ac yn bump oed, sydd wedi'u himiwneiddio yn erbyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbel (MMR).
- Derbyd i'r ysbyty ag anafiadau.
- Canran y plant tair a phump oed y mae eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn.
- Canran y plant â lefel pwysau normal yn bump oed.

Cefnogi teuluoedd a rhieni

- Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir o ran datblygiad neu'n rhagori arnynt yn ddwy oed ac yn dair oed.
- Canran y plant chwech oed sy'n siarad Cymraeg gartref.
- Canran y tai cymdeithasol sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020.
- Nifer y teuluoedd digartref, gyda phlant, sy'n byw mewn llety gwely a brecwast.
- Nifer y teuluoedd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol.

Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel

- Nifer y plant sy'n elwa o ddarpariaeth feithrin Dechrau'n Deg.
- Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn dair oed.
- Canran y plant Dechrau'n Deg sydd wedi cofrestru i ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

Addysg gynradd effeithiol

- Presenoldeb dysgwyr mewn ysgolion cynradd.
- Canran yr ysgolion cynradd a gaiff eu harolygu a gaiff radd 'da' neu 'ardderchog' gan Estyn.
- Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) a gaiff eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf).
- Canran y dysgwyr sy'n cyflawni dangosydd pwnc craidd (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yng Nghyfnod Allweddol 2, 11 oed.

Ffigur 16: Llinell amser lefel uchel ar gyfer cyflawni ymrwymïadau Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant

	Erbyn Rhag 2013	Ion-Meh 2014	Gorff-Rhag 2014	2015	2016 ac ymlaen
Iechyd a lles plant	☐ Cyflwyno'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) ☐ Rhag – datblygu canllawiau arfer da ar gyfer bydwragedd, ymwelwyr iechyd a myrsys ysgol		☐ Rhag – strategaeth anafiadau plant Cymru gyfan yn cael ei ddatblygu ☐ Rhag – 500 o gyn-ysgolion yn cymryd rhan mewn Cynllun Hybu Iechyd mewn Lleoliadau cyn-ysgol		☐ Rhag – pob gwasanaeth mamolaeth wedi cyflawni Gwobr Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF
Cefnogi teuluoedd a rhieni	☐ Hyd – cyflwyno'r Bil Tai ☐ Hyd – ymchwil ar agweddau ac arferion rhianta	☐ Ion – Profi'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ☐ Ion – treialu rhaglenni dysgu fel teulu y blynnyddoedd cynnar	☐ Meh – cyhoeddi canllawiau ar ymgysylltiad rhieni mewn dysgu effeithiol	☐ Ion – rhoi ar waith Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ☐ 2015 – cyflwyno'r Bil Tai	☐ 2020 – Safonau Ansawdd Tai Cymru wedi eu bodloni
Addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel	☐ Datblygu a threalu Tyfu gyda'r Gymraeg ☐ Medi – treialu trefniadau hyblyg at gyrsiau gofal plant a rhianta Dechrau'n Deg	☐ Ebrill ymlaen – rhannu arfer gorau Cymunedau yn Gyntaf ☐ Medi – datblygu gweithgareddau treialu i gefnogi busnesau gofal plant newydd	☐ Medi – cyhoeddi strategaeth cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ☐ Meh – ymgynghori ar wella safonau ansawdd gofal plant	☐ Ebrill – treialu modelau gofal plant cofreidiol	
Addysg gynradd effeithiol	☐ Medi – ystyried ymagweddau hyblyg tuag at y Cyfnod Sylfaen ☐ Cyhoeddi canllawiau ar ddysgu a ysgogir gan oedolyn/plentyn ☐ Cynnal archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen ☐ Hyd – adolygiad o drefniadau rheoleiddio ac arolygu gofal plant/y blynnyddoedd cynnar	☐ Cyflwyno'r model graddio ysgolion cynradd ☐ Ion – cyflawni hyfforddiant Modurdeiddio Addysg Deintyddol ôl-radd o dimau deintyddol	☐ Rhag – datblygu fframwaith cychwynnol ar gyfer anawsterau dysgu penodol (ADP) ☐ Rhag – rhoi argymhellion cynllun gweithlu'r blynnyddoedd cynnar yn dilyn ymgynghori		
Codi safonau	☐ Medi – datblygu a threalu adnoddau asesu'r blynnyddoedd cynnar		☐ Gorff – ymgynghori ar Asesiadau o Ddigonolrwydd Plant ☐ Medi – dechrau cyflwyno'r adnoddau asesu		

Atodiad A: Cyfeiriadau

- *A Child Poverty Strategy 2011–2014: Recommendations for the UK Government* (Save the Children, 2010)
- *A Model for the Inter-generational Transmission of Educational Success* gan L Feinstein, K Duckworth a R Sabates (Centre for Research on the Wider Benefits of Learning, 2004)
- *A Scotland for Children: A Consultation on the Children and Young People Bill* (The Scottish Government, 2012)
- *Arolwg Bwydo Babanod* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)
- *Attainment in secondary school* gan L Feinstein a J Symons (Oxford Economic Papers, 51, 300–321, 1999)
- *BirthWeight, Childhood Socioeconomic Environment, and Cognitive Development in the 1958 British Birth Cohort Study* gan B Jefferis, C Power and C Hertzman (British Medical Journal, 325(7359): 305, 2002)
- *Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion 2012* (StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 2012)
- *Canllawiau Strategol: Dechrau'n Deg* (Llywodraeth Cymru, 2012)
- *Child Measurement Programme for Wales Report 2011–12* (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2013)
- *Child Neglect* gan J Watson (New South Wales: NSW Department of Community Services, 2005)
- *Childcare choices and children's cognitive achievement: the case of single mothers* gan R Bernal a M Keane (IPR Working Paper: WP-06-09, 2007)
- *Childcare Costs Survey 2013* (Daycare Trust and the Family and Parenting Institute, 2013)
- *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg SB 118/2012* (Llywodraeth Cymru, 2012)
- *Cyfrifiad Plant Mewn Angen Cymru* (StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 2011)
- *Do Reduced Childcare Prices Make Parents Work More?* gan D Lundin, E Mork a B Ockert (Institute for Labour Market Policy Evaluation, Working Paper 2007:2, 2007)
- *Does providing childcare to unemployed affect unemployment duration?* gan U Vikman (Uppsala: IFAU – Institute for Labour Market Policy Evaluation, Swedish Ministry of Employment, 2010)
- *Dysgwch wers i germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)
- *Early Intervention: Next Steps* gan G Allen (HM Government, 2011)

- *Effective pre-school and primary education: findings from the pre-school period. Teaching and Learning Research Briefing no. 24* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Institute of Education, University of London, 2007)
- *Effective Pre-School and Primary Education 3–11 Project (EPPE 3–11). Final Report from the Primary Phase: Preschool, School and Family influences on Children's Development during Key Stage 2 (Age 7–11)* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Institute of Education, University of London, 2008)
- *Effects of maternal absence due to employment on the quality of infant-mother attachment on a low-risk sample* gan P Barglow (Child Development, Vol 58, 945–954, 1987)
- *Fair Society Healthy Lives: The Marmot Review* gan M Marmot (Strategic Review of Health Inequalities in England post-2010, 2008)
- Family Information Service (2012) www.daycaretrust.org.uk
- *Family Stressors and Children's Outcomes* gan E Jones, L Gutman a L Platt (Childhood Wellbeing Research Centre, Department for Education, 2013)
- *Fframwaith Arolygu Cyffredin* (Estyn, 2010)
- *Final Report of the Key Stage 3 Phase: Influences on Students' Development from age 11–14* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Department for Education DFE-RR202, 2012)
- *From neurons to neighborhoods: The science of early childhood development* gan J Shonkoff, J a D A Phillips (Washington, DC: National Academy Press, 2000)
- *Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
- *Gwyliwch y Germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Meithrinfeydd, Grwpiau Chwarae a Sefydliadau Gofal Plant eraill* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)
- *Home Alone* gan J Heckman ac A Wax (Wall Street Journal, Ionawr 23, 2004, t. A14)
- *Impact Report 2012: The Impact of Action for Children services and Outcomes for children and young people* gan Action for Children (2012)
- *Inequality in the Early Cognitive Development of British Children in the 1970 cohort* gan L Feinstein (Economica. Cyfrol. 70, Rhif 277 Chwefror 2003, tt. 73–79)
- *Joint book reading makes for success in learning to read: A meta-analysis on intergenerational transmission of literacy* gan A G Bus, M H Van Ijzendoorn ac A D Pellegrini (Review of Educational Research, 65(1), 1–21, 1995)
- *Lifetime Effects: The HighScope Perry Preschool Study Through Age 40* gan HighScope (Ypsilanti: USA, 2005)

- *Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd* (Estyn, 2011)
- *Low income and early cognitive development in the U.K, A Report for the Sutton Trust* gan J Waldfogel ac E Washbrook (2010)
- *Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd: prif flaenoriaethau ein polisi gofal plant* (Llywodraeth Cymru, 2011)
- *Maternal obesity in the UK: Findings from a national project. Executive Summary and Key Findings* gan Confidential Enquiry into Maternal and Child Health (CEMACH) (2010)
- *Millennium Cohort Study* gan C Taylor (WISERD, Caerdydd, 2013)
- *Millennium Cohort Study First Survey* gan S Dex a H Joshi (Institute of Education, University of London, 2004)
- *Millennium Cohort Study Second Survey: A User's Guide to Initial Findings* gan K Hansen a H Joshi (Institute of Education, Centre for Longitudinal Studies, 2007)
- Mind, Exercise, Nutrition...Do it! (MEND) www.mendprogramme.org
- *Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2011)
- Mudiad Meithrin (2012) www.mym.co.uk
- *Mwy na geiriau* (Llywodraeth Cymru, 2012)
- *Non maternal care in the first year of life and the security of infant parent attachment* gan J Belsky a H Rovine (Child Development, Cyfrol 59, 157–167, 1988)
- *Resilience and vulnerability: Adaptation in the context of childhood adversities* gan S Lunthar (Cambridge University Press, 2003)
- *Rhaglen Llywodraethu* (Llywodraeth Cymru, 2011)
- *Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Gwasanaethau Gwybodaeth i leuenctid* (Llywodraeth Cymru, 2011)
- *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* (Llywodraeth Cymru, 2011)
- *School Readiness and later achievement* gan G J Duncan, C J Dowsett, A Claessens, K Magnuson, A Huston, P Klebanov, L Pagani, L Feinstein, M Engel, J Brooks-Gunn, H Sexton a K Duckworth (Development Psychology cyfrol. 43(6), 1428–1446, 2007)

- *School Readiness gains made gan ethnically diverse children in poverty attending centre-based childcare and public school kindergarten programs* gan A Winsler, H Tran, S C Hartman, A L Madigan, L Manfra a C Bleiker (Early Childhood Research Quarterly 23 (2008) 314–329, 2008)
- *Schools, Skills, And Synapses* gan J Heckman (Economic Inquiry, Western Economic Association International, cyfrol. 46(3), tudalennau 289–324, 07, 2008)
- *Separating uncertainty from heterogeneity in life cycle earnings, the 2004 Hicks lecture* gan F Cunha, J Heckman a S Navarro (Oxford Economic Papers 57 (2), 191–261, 2005)
- *Statistics on Academic Achievement and Entitlement to Free School Meals* (Saesneg yn unig) (StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 2013)
- *Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Cyflawni* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
- *The Childcare Transition: A league table of early childhood education and care in economically advanced countries* gan UNICEF Innocenti Research Centre (UNCIEF: Report Card 8, 2008)
- *The Development of Children living in Wales: Analysis of the Millennium Cohort Study. Final Report to the Welsh Assembly Secondary Analysis Programme* gan S Dex, A Cullis a K Hansen (London: Institute of Education, Centre for Longitudinal Studies, 2010)
- *The Early Catastrophe: the 30 million Word Gap* gan B Hart a T Risely (American Education, 27(1) tt.4–9 B, 2003)
- *The Early Years and Childcare Workforce in Wales: 2012 Melyn Report* Report (Saesneg yn unig) gan Cyngor Gofal Cymru (Melyn Consulting ar ran Cyngor Gofal Cymru, 2012)
- *The Early Years Transition and Special Educational Needs (EYTSSEN) Project* gan K Elliot, K Sylva, E Melhuish, P Sammons, R Smees, I Siraj-Blatchford a B Taggart (DfES Research Report: 431. Llundain, 2003)
- *The Effective Provision of Pre-School Education (EEPE) Project: Final Report A longitudinal study funded by the DfES 1997–2004* gan Department for Education and Skills (Llundain: Institute of Education, 2012)
- *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) project final report* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Llundain: DfES/Institute of Education, University of London, 2004b)
- *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Technical Paper 11 – The continuing effects of pre-school education at age 7 years* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Llundain: DfES/Institute of Education, University of London, 2004a)

- *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Technical Paper 8a – Measuring the Impact of Pre-School on Children’s Cognitive Progress over the Pre-School Period* gan K Sylva, E Melhuish, P Sammons, I Siraj-Blatchford a B Taggart (Llundain: DfES Institute of Education, University of London, 2002)
- *The Effects of Preschool Education: What We Know, How Public Policy Is or Is Not Aligned With the Evidence Base, and What We Need to Know* gan R C Pianta, W S Barnett, M Burchinal, a K R Thornburg (Psychological Science in the Public Interest, cyfrol.10, rhif. 2, tt. 49–88, 2009)
- *The Financial Impact of Early Years Interventions in Scotland* (The Scottish Government, 2010) www.scotland.gov.uk/Topics/Research/by-topic/children-and-young-people/EarlyYears
- *The Foundation Years: Preventing poor children becoming poor adults* gan F Field (HM Government, 2010)
- *The Productivity Argument for Investing in Young Children* gan J Heckman a D Masterov (Review of Agricultural Economics 29(3): 446–493, 2007).
- *The Socioeconomic Consequences of In-Work Benefit Reform for British Lone Mothers* gan M Francesconi a W van der Klaauw (The Journal of Human Resources, 42(1), 2007)
- *Vaccine Uptake in Children in Wales Cover Annual Report 2011* gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2011)
- *Why Families Matter to Literacy. A brief research summary* gan C Clark (The National Literacy Trust, 2007)
- *Young People Not in Education, Employment or Training (NEET), Year to 30 September 2011* (Saesneg yn unig) (StatsCymru, Llywodraeth Cymru SB 36/2012, Ebrill 2012)
- *Ystadegau Cenedlaethol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol* (Llywodraeth Cymru, 2011)

Atodiad B: Rhaglenni a strategaethau

Mae rhaglenni a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn eu lle sy'n cefnogi cyflawni ein gweledigaeth yn cynnwys y canlynol.

Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/fairer/?skip=1&lang=cy

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/?skip=1&lang=cy

Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

www.wales.gov.uk/topics/socialjustice/publications/taking-forward-tack-pov/?skip=1&lang=cy

Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/deliveringlearning/?skip=1&lang=cy

Cyfnod Sylfaen

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/?skip=1&lang=cy

Cymru i'r Plant – canllawiau statudol

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/play/?skip=1&lang=cy

Cymunedau yn Gyntaf

www.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/communitiesfirst/?skip=1&lang=cy

Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg

www.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/6436017/?skip=1&lang=cy

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

www.wales.gov.uk/topics/equality/equalityactatwork/?skip=1&lang=cy

Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru

www.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/homelessnessplan/?skip=1&lang=cy

Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

www.wales.gov.uk/topics/socialjustice/publications/tacklepovactionplan/?skip=1&lang=cy

Datganiad polisi gofal plant: Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/nurturing/?skip=1&lang=cy

Dechrau'n Deg

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy

Dysgwch wers i germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

www.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/publications/teachgerms/?skip=1&lang=cy

Ein Dyfodol Iach

www.wales.gov.uk/topics/health/cmo/healthy/?skip=1&lang=cy

Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/nursing/?skip=1&lang=cy

Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau ymwelwyr iechyd yng Nghymru

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/healthvisiting/?skip=1&lang=cy

Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/maternity/?skip=1&lang=cy

Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru (Strategaeth Dai Genedlaethol)

www.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/strategy/publications/strategydoc/?skip=1&lang=cy

Gwella ysgolion

www.learning.wales.gov.uk/news/sitenews/improvingschools/?skip=1&lang=cy

Gwyliwch y germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Meithrinffeydd, Grwpiau Chwarae a Sefydliadau Gofal Plant eraill (lleoliadau cyn-ysgol)

www.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/publications/mindthe germs/?skip=1&lang=cy

Iaith fyw: iaith byw (Strategaeth y Gymraeg 2012–17)

www.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?skip=1&lang=cy

Law yn Llaw at Iechyd

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?skip=1&lang=cy

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/strategy/?skip=1&lang=cy

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd

www.wales.gov.uk/topics/businessandconomy/regeneration/vvpframework/?lang=cy

Papur Gwyn a Bil Rhentu Cartrefi

www.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/rentingbill/?skip=1&lang=cy

Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell (Llywodraeth Cymru, 2012)

www.wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/housewhitepaper/?skip=1&lang=cy

Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/literacyprogramme/?skip=1&lang=cy

Rhaglen Rhifedd Genedlaethol

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/numeracyprogramme/?skip=1&lang=cy

Safon Ansawdd Tai Cymru – canllawiau

www.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/housing/qualitystandard/?skip=1&lang=cy

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?skip=1&lang=cy

Teuluoedd yn Gyntaf

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/familiesfirst/?skip=1&lang=cy

Twf

www.twfcymru.com/?skip=1&lang=cy

Atodiad C: Geirfa

Term/ymadrodd	Diffiniad
Addysg cynnar	Addysg cynnar y Cyfnod Sylfaen (nid yw'n cynnwys Dechrau'n Deg) fel arfer ar gyfer plant tair i bedair oed.
Amddifadedd materol	Ystyr amddifadedd materol yw peidio cael digon o adnoddau ffisegol – bwyd, lloches a dillad – i gynnal safon benodol o fyw.
Amgylchedd dysgu yn y cartref	Amrywiaeth o weithgareddau y mae rhieni yn ymgymryd â nhw gyda phlant cyn oed ysgol sy'n gysylltiedig â gwella dysgu'r plant ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Er enghraifft, darllen, addysgu caneuon a hwiangerddi, paentio a thynnu lluniau, chwarae gyda llythrennau a rhifau, mynd â'r plant ar ymweliadau a chreu cyfleoedd rheolaidd iddynt chwarae gyda'u ffrindiau gartref.
Aml-asiantaeth	Nifer o asiantaethau – dwy o leiaf – yn cydweithio i ddiwallu anghenion/darparu gwasanaethau er budd derbynwyr, gan weithio i ddatblygu iaith gyson, ac yn aml gyflawni arbedion maint gwirioneddol ac ariannol. Neu gellir ei ddiffinio fel nifer o wahanol wasanaethau yn cydweithredu i ddarparu cymorth i blant a theuluoedd.
Blynyddoedd Cynnar	Cyfnod bywyd plentyn o'r adeg cyn ei eni hyd at saith oed (hyd at y diwrnod cyn pen-blwydd y plentyn yn wyth oed a chan gynnwys y diwrnod hwnnw).
Budd-daliadau incwm cartrefi	Diffinnir budd-dal incwm fel unrhyw gymorth budd-daliadau'r wladwriaeth yn arbennig os bydd unigolion yn sâl, os bydd ganddynt incwm isel neu blant dibynnol. At ddiben Dechrau'n Deg, mae cartref ar fudd-dal incwm gyda phlant 0–3 oed yn cynnwys: • cartrefi ar gymhorthdal incwm • cartrefi ar gredyd pensiwn • cartrefi ar lwfans ceisio gwaith • cartrefi ar gredyd treth islaw trothwy incwm isel.
Cyfnod Sylfaen	Y cwricwlwm statudol ar gyfer dysgwyr 3 i 7 oed yng Nghymru.
Cynnwys rhieni	Rhieni sy'n rhagweithiol wrth gefnogi datblygiad eu plentyn.
Chwarae	Mae chwarae yn cynnwys ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Fe'i gwneir heb unrhyw nod allanol na gwobr, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach.
Darpariaeth barhaus	Dull o gynllunio dysgu a datblygu drwy ddarparu meysydd dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n galluogi plant i wneud cynnydd.

Term/ymadrodd	Diffiniad
Diogelu	Diogelu (Plant) a nodir yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yw: • amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso • rhwystro unrhyw beth rhag amharu ar eu hiechyd a'u datblygiad • sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.
Dysgu gweithredol	Mae plant yn cymryd rhan weithredol ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn hytrach na derbyn gwybodaeth mewn modd goddefol. Mae'n brofiad uniongyrchol sy'n cymhell, yn ysgogi ac yn helpu plant i ddatblygu sgiliau a chysyniadau, gan gynnwys caffael iaith.
Gofal	Darparu'r hyn sydd ei angen i sicrhau datblygiad, lles a diogelwch plentyn.
Gofal plant	Gofal i'r plentyn gan ofalwr ac eithrio aelod agos o'r teulu.
Gofal plant o ansawdd	Mae elfennau gofal plant o ansawdd da yn cynnwys ansawdd y rhyngweithio rhwng oedolion a phlant; dealltwriaeth a gwybodaeth y staff am sut mae plant ifanc yn dysgu; cymarebau a meintiau grwpiau sy'n hwyluso rhyngweithio priodol â phlant; ac ategu amgylchedd dysgu'r plentyn yn y cartref.
Gweithio integredig	Unigolion o amrywiaeth o wahanol broffesiynau yn cydweithio ac yn cydweithredu i sicrhau newidiadau cadarnhaol i'r unigolion a'r teuluoedd sy'n cael cymorth ganddynt. (Mae hyn yn mynd y tu hwnt i fod wedi'u cyd-leoli – mae'n ffordd gadarnhaol o weithio.)
Gwell canlyniadau	Mae gwell canlyniadau yn ymwneud â'r effaith gadarnhaol ar amgylchiadau a chyfleoedd bywyd i blant, a theuluoedd, o ganlyniad i help a chymorth drwy amrywiaeth o brosiectau, rhaglenni ac ymyriadau.
Lleihau anghydraddoldebau	Cau'r bwlch o ran canlyniadau mesuradwy a nodwyd (gan lefelu i fyny, nid i lawr).
Lleoliadau nas cynhelir a ariennir	Darparwyr gofal plant nas cynhelir (sector preifat neu wirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol CiC) a ariennir gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg gynnar (y Cyfnod Sylfaen).
Papur Gwyn	Mae Papurau Gwyn yn ddogfennau a gaiff eu llunio gan y Llywodraeth sy'n nodi manylion polisi yn y dyfodol mewn perthynas â phwnc penodol. Yn aml, defnyddir Papur Gwyn fel sail ar gyfer Bil i'w gyflwyno ger bron y Senedd. Mae'r Papur Gwyn yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth gasglu adborth cyn iddi gyflwyno'r polisiau yn ffurfiol fel Bil. (www.parliament.uk)

Term/ymadrodd	Diffiniad
Papur Gwyrdd	Mae Papurau Gwyrdd yn ddogfennau ymgynghori a gaiff eu paratoi gan y Llywodraeth. Yn aml, pan fydd un o adrannau'r llywodraeth yn ystyried cyflwyno cyfraith newydd, bydd yn llunio dogfen drafod o'r enw Papur Gwyrdd. Nod y ddogfen hon yw rhoi cyfle i bobl o fewn y Senedd a'r tu allan iddi drafod y pwnc a rhoi adborth i'r adran ar ei hawgrymiadau. (www.parliament.uk)
Plant sy'n derbyn gofal	Plant sy'n destun gorchymyn gofal, gorchymyn gofal interim neu orchymyn diogelu brys neu sy'n cael llety ar sail wirfoddol am fwy na 24 awr.
Plentyn (plant) mewn angen	Plentyn sy'n annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle o gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb gael gwasanaethau gan awdurdod lleol. Mae iechyd y plentyn yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol neu ei niweidio ymhellach heb gael gwasanaethau o'r fath ar gyfer y plentyn, neu fod y plentyn yn anabl. Mae 'teulu' mewn perthynas â phlentyn o'r fath yn cynnwys unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac unrhyw unigolyn arall y mae wedi bod yn byw gydag ef/hi.
Rhianta cadarnhaol	Cydberthynas yn seiliedig ar barch rhwng rhieni a phlant, lle caiff ymddygiad 'da' ei atgyfnerthu mewn ffordd adeiladol a chan ddefnyddio ffyrdd amgen nad ydynt yn gosbol o ddatblygu a chynnal disgyblaeth.
Sector a gynhelir	Ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir gan yr awdurdod lleol.
Sector nas cynhelir	Lleoliadau preifat neu wirfoddol (y mae rhai ohonynt yn cael arian gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg cynnar y Cyfnod Sylfaen fel arfer ar gyfer plant tair i bedair oed).
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Mae Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn rhoi cyfres gyson a chytbwys o ddadansoddiadau perfformiad cyd-destunol i ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol (fel y bo'n berthnasol i bob ysgol). Nod Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yw cefnogi trefniadau hunanwerthuso a gwella perfformiad ysgolion, a llywio gwaith gydag awdurdodau lleol a Swyddogion Gwella Consortia ac Estyn.
Teuluoedd difreintiedig	Teuluoedd sy'n gorfforol, yn feddyliol, yn gymdeithasol a/neu'n economaidd ddifreintiedig a/neu'n byw mewn ardaloedd llawn amddifadedd.

Term/ymadrodd	Diffiniad
Tîm o Amgylch y Teulu	Grwpiau aml-asiantaeth, sy'n cynnwys dau bartner neu fwy, sy'n sicrhau dull gweithredu teulu cyfan er mwyn gwella'r canlyniadau i deuluoedd ac aelodau teuluoedd, gan nodi cryfderau y teulu ac adeiladu arnynt. Mae'r timau hyn yn cynnwys naill ai gweithiwr allweddol neu weithiwr proffesiynol arweiniol a dylai ddatblygu dulliau ataliol.
Tlodi	Cyflwr hirdymor o ddiffyg adnoddau digonol i fforddio bywd, amodau byw rhesymol neu amwynderau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i ardaloedd deniadol a mannau agored) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol.
Tlodi absoliwt	Plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r incwm islaw 60 y cant o'r incwm cymedrig yn 2010/11 wedi'i addasu ar gyfer prisiau.
Tlodi tanwydd	Ystyrir bod cartref yn dioddef tlodi tanwydd pe byddai angen iddo wario mwy na 10 y cant o'i incwm ar bob math o danwydd – er mwyn gwresogi ystafelloedd penodol yn y cartref hyd at dymheredd gofynnol penodedig am gyfnodau penodol yn ystod y dydd a'r nos, er mwyn darparu dŵr poeth ac er mwyn coginio.
Ymarferwyr	Mae'r term cyffredinol hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar a gall gynnwys gweithwyr gofal plant, athrawon a chynorthwyyr ystafell ddosbarth.
Yn barod i'r ysgol (parodrwydd ar gyfer yr ysgol)	Dealltwriaeth plentyn o chwe chysyniad sylfaenol: lliwiau, llythrennau, rhifau/cyfrif, meintiau, cymariaethau a siapiau. Y cyflwr datblygiad cynnar sy'n galluogi plentyn unigol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu o oedran ysgol gorfodol (pump oed) a chael budd ohonynt.